
Bwrdd Iechyd Lleol Sir Fynwy

**Adolygu Cynnydd yn
erbyn Safonau Gofal
Iechyd Cymru -
1 Ebrill 2006 – 31 Mawrth
2007**

Dyddiad: Hydref 2007

Cynnwys

1.	Cyflwyniad a Chyd-destun	1
2.	Proses Asesu 2006-07	5
3.	Trosolwg o Fwrdd Iechyd Lleol Sir Fynwy.....	9
4.	Canfyddiadau	
	▪ Profiad y Claf	11
	▪ Canlyniadau Clinigol	23
	▪ Rheoli Gofal Iechyd.....	27
	▪ Iechyd y Cyhoedd	43
5.	Y Camau Nesaf	47

Atodiadau

Atodiad 1 : Diffiniadau o Lefelau Aeddfedrwydd.....	49
Atodiad 2: Crynodeb o Lefelau Aeddfedrwydd yn ôl Safon	51
Atodiad 3: Crynodeb o Aeddfedrwydd yn ôl y Lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Claf	58
Atodiad 4: Rhestr Termâu	60

1. Cyflwyniad a Chyd-destun

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau o'r gwaith yr ymgwymerwyd ag ef gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru i brofi a dilysu hunanasesiad o berfformiad Bwrdd Iechyd Lleol (BILI) Sir Fynwy 2006-2007 yn erbyn *Safonau Gofal Iechyd Cymru*.

Y Safonau

1.2. Cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru *Safonau Gofal Iechyd Cymru* ym mis Mai 2005 a daethant i rym ar 1 Mehefin 2005. Maent yn amlinellu fframwaith cyffredin o safonau gofal iechyd i gefnogi'r GIG a'i bartneriaid i ddarparu gwasanaethau effeithiol, amserol ac o ansawdd ym mhob lleoliad gofal iechyd.

1.3. Yn gyntaf oll, diben y Safonau Gofal Iechyd yw cyflwyno'r gwell lefelau gofal a thriniaeth y mae gan bobl Cymru hawl resymol i'w disgwyl a chan hynny darparu sylfaen er mwyn i sefydliadau gofal iechyd ddatblygu a chyflawni'r disgwyliadau newydd a mwy heriol ar gyfer gofal cleifion a amlinellir yn strategaeth ddeng mlynedd Llywodraeth Cynulliad Cymru, '*Cynllun Oes*'. Mae'n ofynnol i bob sefydliad gofal iechyd¹ yng Nghymru ystyried y safonau wrth ddarparu gofal iechyd a chomisiynu gwasanaethau gofal iechyd, waeth beth fo'r lleoliad.

1.4. Mae *Safonau Gofal Iechyd Cymru* yn amlinellu 32 safon o dan bedwar maes. Mae pob un o'r meysydd yn deillio o werthoedd craidd a ddylai fod yn sail i gomisiynu a darparu gwasanaethau gofal iechyd, ac y mae pob safon o fewn y maes yn disgrifio'r gwerthoedd y mae'r maes yn eu cynrychioli.

- Mae'r maes cyntaf '*Profiad y Claf*' yn nodi:

¹ Diffinnir sefydliadau gofal iechyd fel sefydliadau GIG Cymru, contractwyr annibynnol a sefydliadau ac unigolion eraill gan gynnwys y sectorau annibynnol a gwirfoddol, sy'n darparu neu'n comisiynu gofal iechyd ar gyfer cleifion unigol, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd.

Bydd y safonau i gefnogi'r broses o ddarparu gofal iechyd mewn partneriaeth â chleifion, defnyddwyr gwasanaeth, eu gofalwyr a'u perthnasau a'r cyhoedd yn seiliedig ar gynlluniau a phenderfyniadau sy'n parchu anghenion a dymuniadau amrywiol. Bydd y gwasanaethau'n hawdd eu defnyddio ac yn canolbwyntio ar y claf. Bydd gofal iechyd yn cael ei ddarparu mewn lleoliadau sy'n hybu lles y cleifion a'r staff ac sy'n parchu anghenion a dymuniadau cleifion unigol gan y byddant wedi'u llunio i ddarparu triniaeth a gofal yn effeithiol a diogel ac yn cael eu cynnal a'u cadw, a'u glanhau'n dda er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl o ran iechyd i gleifion.

- Mae'r ail faes 'Canlyniadau Clinigol' yn nodi:

Bydd y penderfyniadau a'r gwasanaethau gofal iechyd yn seiliedig ar yr hyn y mae tystiolaeth gwaith ymchwil a aseswyd yn briodol yn dangos y bydd yn sicrhau canlyniad effeithiol ar gyfer cleifion a defnyddwyr gwasanaeth, gan ystyried eu hanghenion a'u dymuniadau personol. Bydd cleifion a defnyddwyr gwasanaeth yn derbyn gwasanaethau mor gyflym â phosibl, ac ni fydd oedi afresymol yn digwydd ar unrhyw adeg yn ystod y broses ddarparu nac yn ystod eu llwybr gofal.

- Mae'r trydydd maes 'Rheoli Gofal Iechyd' yn nodi'n glir:

Bydd gan ddarparwyr a chomisiynwyr gofal iechyd systemau wedi'u sefydlu sy'n cefnogi arweinyddiaeth ac atebolrwydd rheolaethol a chlinigol ac sy'n canolbwyntio ar anghenion a dymuniadau cleifion a defnyddwyr gwasanaeth. Bydd arferion gwaith wedi'u sefydlu er mwyn sicrhau bod uniondeb, sicrwydd ansawdd, dulliau gwella ansawdd a diogelwch y cleifion yn rhan annatod o'r holl arferion, prosesau a gweithgareddau.

- Mae'r pedwerydd maes 'Iechyd y Cyhoedd' yn nodi:

Bydd sefydliadau gofal iechyd yn cydweithio â sefydliadau perthnasol eraill a chymunedau lleol i sicrhau bod rhaglenni a gwasanaethau'n cael eu llunio a'u darparu i hyrwyddo, amddiffyn a gwella iechyd, ac a fydd yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd ac yn helpu pobl i fyw bywydau iach ac annibynnol.

Sicrhau Cydymffuriad

1.5. O fis Ebrill 2007 ymlaen, mae'n ofynnol i sefydliadau gofal iechyd y GIG yng Nghymru gynnal hunanasesiadau yn erbyn y safonau gofal iechyd a llunio datganiad cyhoeddus blynyddol ar eu perfformiad.

1.6. Mae'n ofynnol i sefydliadau gyflwyno eu datganiad a'u ffurflenni hunanasesu yn ffurfiol i Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, sy'n gyfrifol am arwain wrth gydlynu profi a dilysu'r ffurflenni, gan ddefnyddio dadansoddiad ar sail risg, yn erbyn ystod o ffynonellau data. Amlinellir y broses a fabwysiadir gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru i brofi a dilysu ffurflenni 2006-2007 yn yr adran a ganlyn.

1.7. O fis Ebrill 2008 ymlaen, bydd cydymffurfio â'r safonau gofal iechyd hefyd yn cael ei ddefnyddio i gyfrannu at Ddatganiadau o Reolaeth Fewnol ac Adroddiadau Blynyddol y sefydliadau.

2. Proses Asesu 2006-2007

Yr Hunanasesiad

2.1. Blwyddyn ddatblygiadol oedd 2006-2007, a gwelwyd proses asesu newydd yn cael ei datblygu a'i phrofi. Rhoddwyd y pwyslais ar ddatblygu proses asesu sy'n gosod y cyfrifoldeb dros gydymffurfio â *Safonau Gofal Iechyd Cymru* yn gadarn ar Fyrddau sefydliadau gofal iechyd ac sy'n cefnogi'r agenda reoli. Mae'r broses yn gam allweddol tuag at sicrhau bod sefydliadau gofal iechyd yn atebol am safon y gwasanaethau y maent yn eu darparu a bod cleifion a'r cyhoedd yn cael eu hysbysu'n well am berfformiad eu darparwyr a'u comisiynwyr gofal iechyd ac, yn bwysicach, y safonau y dylent eu disgwyl.

2.2. Mewn ymgynghoriad â sefydliadau gofal iechyd a phartneriaid allweddol eraill, mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru wedi datblygu proses hunanasesu sy'n profi perfformiad yn erbyn y *Safonau Gofal Iechyd* ar dair lefel benodol:

- *Corfforaethol* – pa mor dda y mae'r Byrddau yn gwneud eu gwaith mewn perthynas â sicrhau cydymffurfiaid â'r Safonau?
- *Canlyniadau Gweithredol/Clinigol* – sut y gellir sicrhau cydymffurfiaid â'r safonau ar lefel gwasanaeth/ward?
- *Profiad y Claf*² - sut beth yw profiad y claf ac a yw hynny'n gwella?

2.3. Mae meini prawf a chwestiynau asesu wedi'u gosod ar gyfer pob safon ac wedi'u datblygu yn ddull asesu ar y we sy'n caniatáu am gwblhau'r hunanasesiadau ar-lein a llwytho'r dystiolaeth ddogfennol i gefnogi'r atebion a roddir ar gyfer pob cwestiwn. Cefnogir y cwestiynau gan ganllawiau sy'n rhoi arweiniad defnyddiol ar ofynion pob un o'r 32 safon.

2.4. Roedd yn ofynnol i sefydliadau asesu eu cynnydd wrth gyflwyno'r lefel perfformiad uchaf yn erbyn pob un o'r 32 safon gan ddefnyddio matrices aeddfedrwydd. Mae'r matrices aeddfedrwydd yn caniatáu am asesu perfformiad ar y

² Yng nghyd-destun proses asesu'r Safonau Gofal Iechyd defnyddir y term 'defnyddiwr' i ddynodi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr a staff.

lefelau corfforaethol, gweithredol a phrofiad y defnyddiwr ar un o bum lefel aeddfedrwydd:

- Ymwybodol
- Ymateb
- Datblygu
- Ymarfer
- Arwain

Rhoddir diffiniad o bob un o'r lefelau aeddfedrwydd hyn yn Atodiad 1.

2.5. Gan ei bod hi'n flwyddyn ddatblygiadol, bu'n rhaid i sefydliadau'r GIG gadw at rai amserlenni tynn ac roedd yn ofynnol iddynt gyflwyno eu hunanasesiad wedi'i gwblhau i AGIC erbyn 30 Mehefin 2007, dri mis ar ôl rhyddhau'r dull asesu. Cyflwynodd BILI Sir Fynwy yr hunanasesiad o fewn y dyddiad terfyn a dymunwn gydnabod yr holl waith, ymdrech ac ymrwymiad a ddangoswyd gan BILI Sir Fynwy wrth sicrhau eu bod yn cadw at y terfynau amser.

Profi a Dilysu

2.6. Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru wedi profi a dilysu hunanasesiad BILI Sir Fynwy, ac mae hyn wedi cynnwys sawl cam:

- *Cam 1* – dilysiad bwrdd gwaith o'r hunanasesiad gan dîm o adolygwyr sy'n gydweithwyr ac adolygwyr lleyg. Roedd y cam hwn yn cynnwys gwirio pa un a oedd y cwestiynau sy'n cefnogi pob maen prawf wedi'u hateb yn briodol, gan brofi a oedd yr ateb yn cael ei gefnogi gan dystiolaeth ddigonol a pherthnasol a gwerthuso pa un a oedd yr ateb yn cyd-fynd â'r sgôr aeddfedrwydd a ddarparwyd gan y sefydliad.
- *Cam 2* – Cynhaliwyd cyfarfodydd safoni yn ystod mis Awst er mwyn cymharu a chyferbynnu ymatebion a marciau aeddfedrwydd fesul sefydliad a fesul safon. Roedd y cam hwn o'r broses yn allweddol er mwyn sicrhau cysondeb a safoni'r sgorau.

- *Cam 3* – Ymweliadau safle â sefydliadau i brofi agweddau pwysig ar brofiad y claf/defnyddiwr.

Yr Ymweliad Safle

2.7. Roedd yr ymweliad safle yn un cam o ddilysu a phrofi hunanasesiad BILI Sir Fynwy ac, fel y nodwyd uchod, roedd yn canolbwyntio ar brofi agweddau allweddol ar brofiad y defnyddiwr. Cynhaliwyd yr ymweliad ar 6 Medi 2007 ac fe wnaethom hwyluso grwpiau ffocws gyda chleifion a staff, ac ymweld â Chyfleuster Dyffryn Mynwy.

2.8. Yn ychwanegol at hynny cynhaliwyd archwiliadau o ran cofnodion y Swyddfa Cofnodion Troseddol (SCT), hyfforddiant a gwerthuso ar gyfer staff ar ddyletswydd ar ddiwrnod ein hymweliad. Mae rhaglen waith fanwl ar gyfer yr ymweliadau hyn ar gael ar wefan AGIC www.hiw.org.uk.

Uwchgynadleddau Gofal Iechyd

2.9. Ym mis Awst, fe wnaeth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru gydlynw a hwyluso tri chyfarfod rhanbarthol, sef 'Uwchgynadleddau Gofal Iechyd', gan ddwyn ynghyd sefydliadau adolygu ac archwilio er mwyn rhannu gwybodaeth a'i chyfrannu at broses gadarnhau asesu'r Safonau Gofal Iechyd. Mae'r Uwchgynadleddau hyn yn gam allweddol wrth symud tuag at rannu gwybodaeth yn well ar draws sefydliadau adolygu a datblygu cynlluniau archwilio a sicrwydd ar y cyd.

3. Trosolwg o Fwrdd Iechyd Lleol Sir Fynwy

3.1. Sefydlwyd Bwrdd Iechyd Lleol Sir Fynwy ar 1 Ebrill 2003, fel rhan o ad-drefniad Llywodraeth Cynulliad Cymru o'r GIG yng Nghymru. Mae'n nodi mae ei swyddogaeth yw 'gwella iechyd a lles pobl Sir Fynwy.'

3.2. Mae'r BILI yn cynllunio ac yn comisiynu gwasanaethau, sydd:

- Yn galluogi pobl i fyw bywydau iach ac annibynnol
- Yn ymatebol i'w hanghenion iechyd a lles
- Yn cynnwys y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol wrth eu datblygu
- Yn brydlon, yn effeithiol ac yn briodol

3.3. Mae'r Bwrdd yn cwrdd bob deufis ac mae'r cyfarfodydd yn agored i'r cyhoedd.

4. Canfyddiadau - Gan gynnwys Meysydd i'w Gwella ac Arfer Da

4.1 Profiad y Claf

Safon 1

Ymgynghori â'r cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, eu gofalwyr a'u perthnasau a'r cyhoedd wrth lunio, cynllunio, darparu, adolygu a gwella'r gwasanaethau gofal iechyd ac wrth eu hintegreiddio â'r gwasanaethau gofal cymdeithasol.

S1.1 Yn ôl ei hunanasesiad, daeth y BILL i'r casgliad ei fod yn **Datblygu** ar y lefelau Corfforaethol a Phrofiad y Defnyddiwr ac yn **Ymarfer** ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol.

S1.2 Roedd y BILL yn gallu dangos ei fod yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r safon hon ac mae rhai o'r rhain yn cynnwys:

- Strategaeth Gyfathrebu.
- Taflen Gwynion sy'n annog adborth gan gleifion a gofalwyr.
- Pwyllgor Cynnwys y BILL, a sefydlwyd gan y Bwrdd yn 2003.
- Strategaeth a Chynllun Gweithredu ar gyfer Cynnwys ar y cyd rhwng Iechyd a Gofal Cymdeithasol.
- Stondinau'r BILL mewn sioeau Sirol lleol ym Mrynbuga, Trefynwy a Chas-gwent.
- Cytundeb COMPACT gyda Chyngor Ieuenctid Sir Fynwy er mwyn cefnogi ymgysylltu ac ymgynghori â phobl ifanc o fewn y Sir.
- Tîm Cynnwys.
- Adroddiadau ffurfiol i'r Bwrdd ar ôl pob ymarfer ymgynghori cyhoeddus ffurfiol.
- Gofyniad i achosion busnes a gyflwynir i'r Pwyllgor Moderneiddio ddilyn templed safonol sy'n cynnwys adran ar gyfer dangos sut yr ymgysylltir ac y cynhwysir defnyddwyr a gofalwyr yn barhaus.

Yn ychwanegol, mae'r tîm Cynnwys wedi datblygu *Safonau Cynnwys* sy'n cefnogi ac yn annog cynnwys defnyddwyr gwasanaeth wrth gynllunio a datblygu gwasanaethau lleol. Roedd y rhain wedi'u dosbarthu ar gyfer ymgynghori ar adeg cyflwyno hunanasesiad y BILL.

S1.3 Rydym yn cytuno ag asesiad y BILI ei fod yn **Datblygu** ar y lefel Gorfforaethol, ond byddem wedi dymuno gweld cyfeiriad at Strategaeth sy'n dwyn holl waith y BILI ynghyd mewn perthynas â Chynnwys Cleifion a'r Cyhoedd.

S1.4 Mewn ymateb i'r cwestiynau ynglyn â'r lefel weithredol, amlinellodd y BILI ystod eang o enghreifftiau o gyfleoedd sydd wedi'u sefydlu er mwyn i gleifion roi adborth am eu profiadau ac ansawdd y gwasanaeth y maent wedi'i dderbyn. Serch hynny, o'r ymateb, ymddengys bod yr Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb mewn cyfnod datblygu cynnar iawn ac ni roddodd y BILI enghreifftiau o sut y mae staff ar lefel leol yn dylanwadu ar y broses o gasglu safbwyntiau. Mae'r Tîm Comisiynu ar y Cyd a'r Bwrdd Partneriaeth ar y Cyd yn sicrhau bod dull iechyd a gofal cymdeithasol integredig yn bodoli, ond tystiolaeth gyfyngedig a gyflwynwyd gan y BILI o gynnwys defnyddwyr yn y dull hwn. Felly, ystyriwn fod y BILI yn **Datblygu** ac nid yn Ymarfer ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol.

S1.5 Dangosodd y BILI fod nifer o fentrau wedi'u sefydlu ar gyfer nodi bodlonrwydd cleifion. Serch hynny, ychydig o dystiolaeth a roddwyd o sut y mae'r adborth a dderbynnir yn cael ei werthuso. Rhoddwyd enghreifftiau o newidiadau i wasanaethau o ganlyniad i ymgynghori â chleifion ynghyd ag enghreifftiau o newidiadau a wnaed ar draws iechyd a gofal cymdeithasol, er nad yw'r cyswllt rhwng iechyd a gofal cymdeithasol yn gwbl glir. Rydym yn cadarnhau asesiad y BILI ei fod yn **Datblygu** ar lefel Profiad y Defnyddiwr, ond dylid nodi yn ystod y trafodaethau gyda'r Cyngor Iechyd Cymuned y daeth yn amlwg nad ydynt yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys gan y BILI cymaint ag y gallent, ac mae angen i'r BILI ystyried sut y gall wella ei gysylltiadau gyda swyddogion lleol.

Safon 2

Bydd y gwaith o gynllunio a darparu gofal iechyd:

- a. yn cyd-fynd â phrofiadau, safbwyntiau a dymuniadau'r cleifion a defnyddwyr gwasanaeth;*
- b. yn bodloni anghenion iechyd y boblogaeth a wasanaethir;*
- c. yn seiliedig ar dystiolaeth ac arferion gorau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol; ac*
- ch. yn sicrhau bod pawb yn cael yr un mynediad at wasanaethau.*

S2.1 Yn ôl ei hunanasesiad, daeth y BILI i'r casgliad ei fod yn **Datblygu** ar y lefel Gorfforaethol ac ystyriwn fod ei ymateb hunanasesu a'r dystiolaeth ategol yn cefnogi hyn. Mae'n amlwg bod llawer yn cael ei wneud i ddarganfod ac yna mynd i'r afael ag anghenion iechyd poblogaeth y BILI a rhoddwyd tystiolaeth fod data yn cael ei ddadansoddi, ynghyd ag ystod o gynlluniau gweithredu a dulliau monitro'r Bwrdd. Mae'r Bwrdd yn derbyn adroddiadau am weithgareddau, achosion brys ac achosion nad ydynt yn frys yn chwarterol, ond ychydig o dystiolaeth a roddwyd o sut y mae'n cael sicrwydd bod yr holl wasanaethau y mae'n eu darparu ar gael yn gyfartal.

S2.2 Ar lefel Weithredol, daeth y BILI i'r casgliad ei fod yn **Ymarfer** ac rydym yn cytuno â'r asesiad hwn. Mae'r BILI wedi sefydlu ystod eang o systemau a phrosesau sy'n galluogi'r Bwrdd i fonitro, cynllunio a darparu ar gyfer anghenion iechyd y boblogaeth. Mae'r ymateb yn cynnwys cyfoeth o wybodaeth, wedi'i chefnogi gan rywfaint o wybodaeth ddogfennol, am ddiwylliant o fonitro cydymffurfiaid a pherfformiad yn erbyn tystiolaeth ac arfer gorau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol. Mae cyflawni targedau nad ydynt yn frys yn amlwg yn flaenoriaeth i'r Bwrdd ac mae staff ar y lefel weithredol yn gysylltiedig â chyflawni'r rhain.

S2.3 Gallwn gadarnhau hunanasesiad y BILI ei fod yn **Datblygu** ar lefel Profiad y Defnyddiwr. Mae ystod ac ansawdd y wybodaeth a roddir i'r cleifion yn dda. Mae gwefan y BILI yn nodi newyddion lleol a 'phynciau llosg' ac mae'n cynnwys yr holl adroddiadau ar amseroedd aros. Defnyddir y Cyfeirlyfr Gwasanaethau 'Social-Eyes' i hysbysu cleifion, gofalywr a rhanddeiliaid o'r gwasanaethau sydd ar gael ar draws Sir Fynwy ar gyfer y gymuned anabl a sut i gael mynediad atynt, ac mae'r grwp Strategaeth Iechyd Corfforol yn cynhyrchu cylchlythyrau chwarterol. Serch hynny, dywedodd y rhai a fynychodd grwp ffocws y cleifion eu bod o'r farn bod y cyfathrebu rhwng Meddygon Teulu a'r BILI yn wael a mynegwyd peth pryder bod meddygfeydd Meddygon Teulu yn rhoi'r gorau i grwpiau cyfranogiad cleifion. Mae angen i'r BILI ystyried y mater hwn a sicrhau bod camau'n cael eu cymryd er mwyn lleihau pryderon y cleifion.

Safon 3

Dylai cleifion sydd ag anghenion iechyd brys gael mynediad at ofal priodol yn brydlon ac o fewn terfynau amser cenedlaethol a gaiff eu pennu'n flynyddol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

S3.1 Yn ôl ei hunanasesiad, daeth y BILI i'r casgliad ei fod yn **Ymarfer** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol ac yn **Datblygu** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

S3.2 Rydym yn fodlon bod y Bwrdd wedi sefydlu prosesau digonol er mwyn monitro cydymffurfriad â thargedau mynediad brys cenedlaethol, ac roeddem yn falch o weld cyfeiriad at y ffaith bod y BILI yn sicrhau bod darparwyr wedi sefydlu protocolau er mwyn sicrhau cydymffurfriad. Darparodd y BILI dystiolaeth o newidiadau a wnaed o ganlyniad i waith monitro a gwerthuso'r BILI, ac felly rydym yn cytuno ag aeddfedrwydd o **Ymarfer** ar y lefel Gorfforaethol.

S3.3 Ystyriwn mai dim ond **Datblygu** y mae'r BILI ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol. Nododd y BILI fod y staff yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am berfformiad yn erbyn targedau mynediad brys cenedlaethol yn ystod diwrnodau datblygu a gynhelir ddwywaith y flwyddyn a chyfarfodydd tîm. Er mwyn cyfiawnhau aeddfedrwydd o Ymarfer byddem yn disgwyl mwy o dystiolaeth o staff yn cymryd rhan wrth ddatblygu datrysiadau a gwelliannau.

S3.4 Roedd ymateb y BILI i *sut y mae cleifion yn cael eu hysbysu ynghylch perfformiad yn erbyn targedau brys cenedlaethol, amseroedd aros a'r opsiynau sydd ar gael iddynt er mwyn cael mynediad at wasanaethau yn canolbwyntio'n fawr ar wefan y BILI.* O ystyried yr opsiynau cyfyngedig ar gyfer hysbysu cleifion ystyriwn fod y BILI yn **Ymateb** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

Safon 4

Caiff gofal iechyd ei ddarparu mewn lleoliadau priodol sydd wedi'u cynllunio'n dda sydd:

- a. yn hyrwyddo lles cleifion a'r staff;*
- b. yn parhau anghenion gwahanol gleifion, eu preifatrwydd a chyfrinachedd;*
- c. yn ystyried diogelwch y cleifion, y defnyddwyr a'r staff; ac*
- ch. yn darparu amgylchedd diogel sy'n amddiffyn y cleifion, y staff, yr ymwelwyr a'u heiddo, yn ogystal ag asedau ffisegol y sefydliad.*

S4.1 Yn ôl ei hunanasesiad, daeth y BILI i'r casgliad ei fod yn **Datblygu** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S4.2 Yn ei ymateb mae'r BILI yn cyfeirio at *Strategaeth Ystadau* sydd wedi'i chymeradwyo gan y Bwrdd; sy'n dangos pryder y Bwrdd ynghylch natur hirdymor y ddarpariaeth. Yn ogystal, mae gan y BILI Hyrwyddwr Ystadau sy'n aelod anweithredol o'r Bwrdd ac sy'n aelod o Banel Ystadau'r BILI. Mae'r BILI yn gweithio mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth GIG Gwent a'r 4 BILI arall yng Ngwent er mwyn cytuno ar y 'Rhaglen Dyfodol Clinigol' yng Ngwent.

S4.3 O ran swyddogaeth y Bwrdd wrth sicrhau bod amgylcheddau gofal iechyd yn cydymffurfio â gofynion statudol sy'n ymwneud â diogelwch, anghenion, preifatrwydd a chyfrinachedd cleifion a staff, ychydig iawn o wybodaeth a roddwyd heblaw am gyfeirio at Gytundebau a chontractau Hirdymor gyda darparwyr sy'n nodi bod yn rhaid iddynt gydymffurfio â'r gofynion statudol. Ni chyfeiriwyd at drefniadau monitro neu adrodd y Bwrdd na pholisïau (heblaw am Bolisi Rheoli Gwastraff) neu bwyllgorau perthnasol. Byddem, er enghraifft, wedi disgwyl gweld cyfeiriad at Strategaeth neu Bolisi Iechyd a Diogelwch yn yr ymateb; fel y nodwyd ynglyn â Safon 5.

S4.4 Mae'r Panel Ystadau yn sicrhau bod grwp llywio prosiect, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r staff, wedi'i sefydlu ar gyfer pob datblygiad newydd/gwaith adnewyddu. Mae'r ymateb yn nodi bod trefniadau'n bodoli ar gyfer monitro cydymffurfiad â dyletswyddau cydraddoldeb, ond ni chyfeirir at sut y caiff hyn ei weithredu. Mae contractwyr Gofal Sylfaenol yn cael eu monitro'n flynyddol i weld a ydynt yn cydymffurfio â dyletswyddau cydraddoldeb, trwy'r Fframwaith Ansawdd a Chanlyniadau, ond ni roddodd y BILI unrhyw dystiolaeth o ganlyniadau hyn. Mae hyfforddiant ar gael i'r staff, ond ni roddwyd unrhyw dystiolaeth o archwiliadau iechyd a diogelwch na monitro effeithiolrwydd yr hyfforddiant.

S4.5 Sefydlir grwp llywio prosiect sy'n cynnwys cynrychiolwyr y defnyddwyr ar gyfer pob datblygiad newydd/gwaith adnewyddu. Serch hynny, ychydig o dystiolaeth a roddodd y BILI o sut yr hysbysir cleifion o ofynion diogelwch ac ni roddwyd unrhyw dystiolaeth o strwythurau a sefydlwyd er mwyn sicrhau bod staff yn gallu cydymffurfio â gofynion diogelwch cyfredol.

S4.6 Codwyd pryderon ynglyn â diogelwch cleifion a rheoli heintiau yn dilyn ein hymweliad safle arsylwadol â Chyfleuster Dyffryn Mynwy, a weithredir ar y cyd gan BILI Sir Fynwy, Cyngor Sir Fynwy, Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent a Chymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Gwent. Mae diffygion cynllunio yn y ward cleifion mewnol o ran ystafelloedd ymolchi, tai bach a mannau dydd/bwyta. Mae materion hefyd yn codi ynglyn â mynediad i'r Ward sydd, yn ein barn ni, yn achosi risg i ddiogelwch y cleifion a'r staff. Yn ogystal, er bod y dderbynfa a'r mannau aros yn briodol, mae desg agored y dderbynfa yn codi pryderon ynglyn â materion cyfrinachedd. Cyflwynasom ein pryderon ynglyn â Chyfleuster Dyffryn Mynwy i Brif Weithredwr Dros Dro y BILI a Phrif Weithredwr yr Ymddiriedolaeth, ac aethpwyd i'r afael â'n pryderon mewn modd pydlon.

S4.7 O ystyried yr uchod ystyriwn mai dim ond **Ymateb** y mae'r BILI ar bob un o'r tair lefel.

Safon 5

Mae gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn lleoliadau, sydd:

- a. yn cael eu cynnal a'u cadw at safonau glanweithdra sy'n dderbyniol yn genedlaethol;*
- b. yn gostwng y perygl i gleifion, staff ac ymwelwyr o ddal heintiau cysylltiedig â gofal iechyd, gan leihau nifer yr achosion o flwyddyn i flwyddyn; ac*
- c. yn pwysleisio safonau uchel o hylendid ac yn cydymffurfio â mentrau i annog arferion gorau.*

S5.1 Yn ôl ei hunanasesiad, daeth y BILI i'r casgliad ei fod yn **Ymateb** ar y lefel Gorfforaethol ac yn **Datblygu** ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S5.2 Roedd ymatebion y BILI i'r gyfres o gwestiynau ar y lefel Gorfforaethol yn gyfyngedig iawn ac ni chyfeiriwyd at dulliau adrodd a monitro'r Bwrdd a'r cyfeiriad strategol y mae wedi'i osod. Rhoddwyd peth tystiolaeth yn yr ymateb fod y Bwrdd yn monitro meddygfeydd ac un practis deintyddol, ond ni cheir unrhyw dystiolaeth fod y BILI yn monitro gwasanaethau gofal sylfaenol eraill.

S5.3 Mae'r Rheolwr Comisiynu ar y Cyd ar gyfer Pobl Hyn yn cynnal ymweliadau monitro blynyddol â'r holl gartrefi preswyl a nyrsio i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â Safonau Gofal AGGCC, ond ni chyfeiriwyd at sut y mae'r BILI yn monitro darparwyr gofal eilaidd heblaw am drwy gynnwys gofynion i gydymffurfio â safonau cenedlaethol mewn Cytundebau Hirdymor. Felly, cytunwn fod y BILI yn **Ymateb** ar y lefel Gorfforaethol.

S5.4 Tystiolaeth gyfyngedig a ddarparodd y BILI ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol. Ni nodwyd prosesau ar gyfer gwerthuso ac ystyried materion rheoli a chynnal a chadw eiddo yn yr ymateb, ac o ran mesur, monitro ac adrodd am lefelau glanweithdra a hylendid, dim ond cyfeirio at fonitro'r contract Gwasanaeth Meddygol Cyffredinol a derbyn Cerdyn Sgorio Cytbwys Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent a wnaeth y BILI.

S5.5 Nid oedd y BILI yn gallu dangos y gweithredir ar bryderon sy'n ymwneud â materion cynnal a chadw a dim ond tystiolaeth gyfyngedig a roddwyd o fynd i'r afael â phryderon sy'n ymwneud â lefelau hylendid a glanweithdra. Ystyriwn hefyd fod angen iddynt wneud mwy o ran grymuso cleifion ac ymwelwyr a'u cefnogi i herio staff mewn perthynas â heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd.

S5.6 Felly, ystyriwn fod y BILI yn **Ymateb** ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

Safon 6

Mae sefydliadau gofal iechyd, wrth gydnabod y gwahanol anghenion o ran cyfathrebu a'r gwahanol anghenion ieithyddol, corfforol a diwylliannol:

- a. yn sicrhau bod gwybodaeth am eu gwasanaethau o fewn cyrraedd cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, eu gofalwyr a'u perthnasau a'r cyhoedd;*
- b. yn rhoi gwybodaeth yn brydlon i gleifion a defnyddwyr gwasanaeth am eu cyflwr, y gofal a'r driniaeth y byddant yn eu cael yn ogystal â'r trefniadau ar gyfer darparu ôl-ofal a chymorth; a rhoi cyfleoedd i gleifion a defnyddwyr gwasanaeth drafod a chytuno ar opsiynau'n ymwneud â'u gofal.*

S6.1 Yn ôl ei hunanasesiad, daeth y BILI i'r casgliad ei fod yn **Datblygu** ar y lefel Gorfforaethol ac yn **Ymarfer** ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S6.2 Mae Strategaeth Gyfathrebu y BILI ynghyd â'i Gynllun Iaith Gymraeg, Cynllun Cydraddoldeb Hiliol a Chynllun Cydraddoldeb i Bobl Anabl, yn amlinellu nod y BILI o sicrhau bod gwybodaeth am wasanaethau ar gael yn rhwydd i holl aelodau'r cyhoedd waeth beth yw eu gwahanol anghenion ieithyddol neu gorfforol. Mae penodi Swyddog Gwybodaeth i'r Cyhoedd yn dangos ymrwymiad y BILI i ddarparu gwybodaeth.

S6.3 Rhoddwyd sawl enghraifft o sut y mae'r BILI yn rhoi gwybodaeth i gleifion a'r cyhoedd ac mae'r BILI yn nodi yn ei ymateb bod ei ddogfennau, fel mater o drefn, yn cael eu cynhyrchu yn y Gymraeg a'r Saesneg, er y gellir cynhyrchu dogfennau mewn ieithoedd eraill, mewn print bras, mewn Braille neu ar dâp sain hefyd ar gais. Ymddengys bod y Grwp Strategaeth Iechyd Corfforol wedi cyflawni llawer o waith da yn y maes hwn, gan gynhyrchu gwybodaeth mewn amrywiaeth o gyfryngau gan gynnwys Braille, print bras a dogfennau electronig sy'n hawdd eu defnyddio.

S6.4 Mae ymateb a thystiolaeth y BILI yn canolbwyntio ar wybodaeth 'ymarferol' ynghylch gwasanaethau (e.e. yr hyn sy'n cael ei wneud, ble a phryd) ac ni roddwyd unrhyw dystiolaeth ynghylch 'cyflyrau, gofal a thriniaeth'.

S6.5 Cyhoeddir ystod eang o wybodaeth gan y BILI, ond nid yw'n glir o ymateb y BILI pa un a yw darparu gwybodaeth ynghylch cyflyrau, gofal a thriniaeth yn rhan gadarn o'r diwylliant. Ymddengys mai prin yw'r gefnogaeth ar gyfer y staff, gydag ychydig iawn o dystiolaeth o raglenni hyfforddi a chefnogi yn y maes allweddol hwn sef gofal cleifion. Mae ymatebion y BILI i gwestiynau ar lefel Profiad y Defnyddiwr yn cyfeirio at amryw gyfryngau gwybodaeth i gleifion. Fodd bynnag, nid yw'n amlinellu mewn gwirionedd sut y mae'r BILI yn sicrhau bod yr holl ddefnyddwyr gwasanaeth yn gallu cael gafael ar y wybodaeth y mae ei hangen arnynt ynghylch ei wasanaethau.

S6.6 Dywedwyd wrthym gan y rheiny a gymerodd ran yng ngrwp ffocws y cleifion nad ydynt yn deall yr hyn y mae'r BILI yn ei wneud.

S6.7 Rhoddodd y BILI enghreifftiau a thystiolaeth gyfyngedig o brosesau ar gyfer monitro pa mor hawdd ydyw i ddefnyddwyr gwasanaeth gael gafael mewn

gwybodaeth ynghylch gwasanaethau a chyflyrau. Ymddengys eu bod yn dibynnu ar wasanaethau Eiriolaeth o ran gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu. Yn ogystal, mae'r BILI yn dibynnu ar y broses gwynion er mwyn datrys unrhyw wahaniaethau rhwng dewis y claf a barn broffesiynol.

S6.8 Yn ôl ei hunanasesiad, ystyriwn fod y BILI yn **Datblygu** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol a dim ond yn **Ymateb** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

Safon 7

Mae'r cleifion a defnyddwyr gwasanaeth, gan gynnwys pobl ag afiechydon hirdymor, yn cael eu hannog i gyfrannu at eu cynlluniau gofal eu hunain ac yn cael cyfleoedd ac adnoddau i ddysgu sut i ofalu amdanynt eu hunain.

S7.1 Yn ôl ei hunanasesiad, daeth y BILI i'r casgliad ei fod yn **Datblygu** ar y lefel Gorfforaethol ac yn **Ymarfer** ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S7.2 Mae cyflwyniad y BILI yn rhoi tystiolaeth o rywfaint o arfer da er mwyn galluogi cleifion sydd â chyflyrau hirdymor i gyfrannu at eu cynllun gofal. Er enghraifft, Rhaglen Cleifion Arbenigol y Tîm Ailalluogi a'r Rhaglen Cleifion Arbenigol Diabetes. Serch hynny, ymddengys mai dim ond ar gyfer ystod fach o gleifion/cyflyrau y mae dulliau o'r fath wedi'u sefydlu.

S7.3 Nid oedd ymateb y BILI yn mynd i'r afael â sut y mae'r agenda strategol yn cael ei chydlynu, ei datblyglu a'i monitro gan y Bwrdd. Ac eithrio'r Rhaglen Cleifion Arbenigol Diabetes, ni roddwyd tystiolaeth o drefniadau gwerthuso parhaus ar gyfer yr amryw fentrau i sefydlu pa un a ydynt yn cyfrannu at welliant parhaus. Wedi dweud hynny, gallwn gadarnhau asesiad y BILI ei fod yn **Datblygu** ar y lefel Gorfforaethol.

S7.4 Rhoddir hyfforddiant a goruchwyliaeth i'r staff er mwyn eu galluogi i gynorthwyo cleifion sydd â chyflyrau hirdymor i gyfrannu at gynlluniau gofal, megis hyfforddiant nam ar y synhwyrau a hyfforddiant ar anableddau. Serch hynny, ni cheir unrhyw dystiolaeth o hyfforddiant penodol a gyflawnir er mwyn galluogi'r staff i

helpu cleifion i gyfrannu at eu cynlluniau gofal yn fwy effeithiol nac unrhyw dystiolaeth o werthuso effeithiolrwydd yr hyfforddiant hwn. Nodir yn ymateb y BILI bod y Rhaglen Cleifion Arbenigol yn allweddol o ran grymuso cleifion a defnyddwyr gwasanaeth i reoli eu gofal eu hunain. Ystyriwn fod y BILI yn **Datblygu** ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr ar gyfer y safon hon. Fodd bynnag, er y ceir peth tystiolaeth o werthuso, mae angen tystiolaeth bellach ynghyd â phrawf o feincnodi a gwelliant parhaus er mwyn codi'r sgôr i Ymarfer.

Safon 8

Mae sefydliadau gofal iechyd yn sicrhau:

- a. bod staff yn trin cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, eu perthnasau a'u gofalwyr ag urddas a pharch;*
- b. bod y staff eu hunain yn cael eu trin ag urddas a pharch waeth beth fo'r gwahaniaethau rhyngddynt;*
- c. yr eir ati'n briodol i gael caniatâd cyn cysylltu â chleifion a defnyddwyr gwasanaeth a chyn defnyddio gwybodaeth gyfrinachol am gleifion; a*
- ch. bod unrhyw wybodaeth am gleifion yn cael ei thrin yn gyfrinachol, ac eithrio pan fo'r deddfwriaeth yn caniatáu ei defnyddio.*

S8.1 Yn ôl ei hunanasesiad, daeth y BILI i'r casgliad ei fod yn **Datblygu** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol ac yn **Ymarfer** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

S8.2 Roedd y BILI yn gallu dangos bod mesurau wedi'u sefydlu er mwyn sicrhau cydymffurfiaid â chanllawiau cenedlaethol sy'n ymwneud â materion urddas, parch a chaniatâd gwybodus, ac felly rydym yn fodlon cytuno â'i asesiad ei fod yn **Datblygu** ar y lefel Gorfforaethol. Mae'r camau a gymerwyd gan y BILI yn cynnwys:

- Gweithredu Côd Ymarfer.
- Mae'r angen i gydymffurfio â gofynion deddfwriaethol wedi'i gynnwys mewn dogfennau contract ffurfiol y mae'r holl ddarparwyr wedi cytuno arnynt.
- Mae'n ofynnol i'r holl nyrsys a gyflogir gan y BILI fod wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.
- Mabwysiadu Polisi Urddas yn y Gweithle.
- Mabwysiadu Polisi Cydraddoldeb.

- Cynnal sesiynau ymwybyddiaeth a hyfforddiant ar gyfer yr holl staff i sicrhau eu bod oll yn cael eu trin yn deg a'u bod yn ymwybodol o faterion urddas, cydraddoldeb a gwahaniaethu.
- Mabwysiadu Polisi Diogelwch Data a Gwybodaeth.
- Defnyddio ffurflenni Caniatâd.
- Mabwysiadu Protocolau Rhannu Gwybodaeth.
- Diweddariadau blynyddol ynglyn ag Urddas yn y Gweithle a Chwythu'r Chwiban.

S8.3. Rhoddodd y BILL nifer o enghreifftiau o sut yr hysbysir y staff o bwysigrwydd trin cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'u cydweithwyr ag urddas a pharch, gan gynnwys sesiynau hyfforddi ac ymwybyddiaeth. Rydym hefyd yn fodlon bod systemau wedi'u sefydlu er mwyn sicrhau bod y staff yn cael y cyfle i leisio'u barn ynglyn â'r ffordd y maent yn cael eu trin.

S8.4. Roedd yn achos pryder i ni nodi nad oes gan y BILL Bolisi Caniatâd ac argymhellwn eu bod yn mynd i'r afael â hyn fel mater brys. Yn ogystal, mae angen iddynt sicrhau bod hyfforddiant ynglyn â materion caniatâd a chyfrinachedd ar gael i holl gontractwyr a staff gofal sylfaenol. Felly, ystyriwn fod sgôr aeddfedrwydd o **Ymateb** yn briodol ar y lefel Weithredol/Clinigol.

S8.5 Mae angen gwneud gwaith pellach o ran Profiad y Defnyddiwr yn y maes hwn. Roedd yr atebion a roddwyd i bob un o'r cwestiynau ar Lefel y Defnyddiwr yn gul iawn ac ni ddatblygwyd yr esboniadau. Ystyriwn fod y BILL yn **Datblygu** ar lefel Profiad y Defnyddiwr, er dylid nodi nad yw'r BILL wedi derbyn unrhyw gwynion na sylwadau yn ymwneud â materion urddas a pharch yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Safon 9

Lle bydd bwyd yn cael ei ddarparu bydd systemau ar waith i sicrhau:

- a. *bod cleifion a defnyddwyr gwasanaeth yn cael dewis o fwydydd sydd wedi'u paratoi'n ddiogel ac sy'n sicrhau deiet gytbwys; a*
- b. *bod gofynion personol, diwylliannol a chlinigol y cleifion o ran deiet yn cael eu bodloni, gan roi unrhyw gymorth sydd ei angen arnynt i fwyta a sicrhau bod ganddynt fynediad at fwyd 24 awr y dydd.*

S9.1 Yn ôl ei hunanasesiad, daeth y BILI i'r casgliad ei fod yn **Datblygu** ar y lefelau Gorfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S9.2 Yn yr un modd â mwyafrif y Byrddau Iechyd Lleol, nododd ymateb Sir Fynwy fod y safon hon yn berthnasol i sefydliadau darparwyr yn unig. Fel Arolygiaeth Gofal Iechyd, mae ymateb o'r fath yn achos pryder i ni oherwydd dylai comisiynwyr fod yn sicrhau bod gan sefydliadau darparwyr o bob math systemau a phrosesau wedi'u sefydlu er mwyn sicrhau bod gofynion y safon hon yn cael eu bodloni. Dylai'r Byrddau Iechyd Lleol fod yn monitro hyn fel rhan o'u cyfrifoldebau comisiynu.

S9.3 Ystyriwn fod y BILI yn **Ymwybodol** ar bob lefel. Bydd canllawiau pellach ynglyn â swyddogaeth y Byrddau Iechyd Lleol o ran sicrhau bod y safon hon yn cael ei bodloni yn cael eu cyhoeddi yn barod ar gyfer hunanasesiad y flwyddyn nesaf.

Safon 10

Bydd sefydliadau gofal iechyd yn sicrhau nad yw pobl sy'n cael gofal iechyd yn destun unrhyw wahaniaethu ar sail oed, rhyw, anabledd, ethnigrwydd, hil, crefydd na thueddfryd rhywiol.

S10.1 Yn ôl ei hunanasesiad, daeth y BILI i'r casgliad ei fod yn **Datblygu** ar y lefel Gorfforaethol ac yn **Ymarfer** ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S10.2 Rydym yn fodlon bod y BILI wedi sefydlu prosesau a gweithdrefnau priodol er mwyn cadarnhau lefel aeddfedrwydd o **Ddatblygu** ar y lefel Gorfforaethol.

S10.3 Mae'r BILI wedi datblygu a chymeradwyo ystod o gynlluniau a chynlluniau gweithredu sy'n ymwneud â chydraddoldeb. Mae perfformiad contractwyr yn cael ei fonitro a chyflwynir adroddiadau adolygu blynyddol i'r Bwrdd ar gyfer pob cynllun cydraddoldeb. Serch hynny, nid oes unrhyw dystiolaeth fod y rhain yn gwerthuso perfformiad. Er enghraifft, mae Adroddiad Blynyddol y Cynllun Cydraddoldeb Hiliol yn fwy o ddisgrifiad o'r system na dadansoddiad o'i weithrediad.

S10.4 Mae'r Bwrdd yn amlwg yn ymroddedig i gynyddu ymwybyddiaeth ei staff o faterion cydraddoldeb trwy ddarparu ystod o hyfforddiant gorfodol, ond mae angen

tystiolaeth o feincnodi a gwelliant parhaus cyn y gallwn gadarnhau aeddfedrwydd o Ymarfer. Ystyriwn fod y BILI yn **Datblygu** ar y lefel canlyniadau Gweithredol/Clinigol.

S10.5 Rhoddodd y BILI enghreifftiau o ddatblygiadau diweddar i wasanaethau a oedd yn bodloni anghenion grwpiau penodol o ddefnyddwyr gwasanaeth unigol yn llwyddiannus, megis gwasanaethau cymorth ar gyfer y rheiny sy'n gofalu am bobl ag anghenion iechyd meddwl. Fodd bynnag, o ystyried ystod gul yr enghreifftiau, ni allwn gadarnhau bod profiad y defnyddwyr yn gyffredinol dda ar draws pob lefel, ac felly rydym yn cadarnhau bod y BILI yn **Datblygu** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

4.2 Canlyniadau Clinigol

Safon 11

Mae sefydliadau gofal iechyd yn sicrhau:

- a. bod triniaethau a gofal clinigol yn cael eu darparu gan bobl broffesiynol ym maes gofal iechyd sy'n gwneud penderfyniadau clinigol ar sail tystiolaeth;
- b. y caiff gofal clinigol a thriniaethau eu cynnal o dan oruchwyliaeth ac arweiniad staff clinigol;
- c. bod clinigwyr yn parhau i ddiweddarau eu sgiliau a'r technegau sy'n berthnasol i'w gwaith, gan gynnwys adolygiadau cymheiriaid; a
- ch. bod clinigwyr yn archwilio ac yn adolygu'r gwasanaethau clinigol yn rheolaidd.

S11.1 Yn ôl ei hunanasesiad, daeth y BILL i'r casgliad ei fod yn **Datblygu** ar y lefelau Corfforaethol a Phrofiad y Defnyddiwr ac yn **Ymateb** ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol.

S11.2 Roedd y BILL yn gallu dangos ei fod yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r Safon hon, ac mae'r rhain yn cynnwys:

- Pwyllgor Llywodraethu Clinigol
- Gwaith sy'n mynd rhagddo gyda BILL Casnewydd i ddiweddarau *Polisi ar gyfer Ymyriadau nas Ariennir fel Arfer*
- Mabwysiadu *Gweithdrefn ar gyfer Ymdrin â Thriniaethau Unigol* (PICT)
- Polisi Gweithredu'r Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol (NICE)
- Rhaglen Archwilio Clinigol Flynyddol
- Protocol gwerthuso Meddygon Teulu
- Gweithdrefnau ar gyfer goruchwyllo a gwerthuso clinigol

S11.3 Mae'r BILL wedi nodi nifer o faterion yn ei hunanasesiad y mae angen mynd i'r afael â hwy er mwyn cryfhau ei ymateb i'r safon hon. Mae'r rhain yn cynnwys cwblhau gwaith parhaus i ddatblygu rhaglen archwilio clinigol flynyddol a datblygu cylchlythyr llywodraethu clinigol er mwyn rhannu arfer gorau.

S11.4 Er ein bod yn cytuno ag asesiad y BILL ei fod yn **Datblygu** ar y lefel Gorfforaethol, byddem wedi dymuno gweld mwy o fanylion o ran dulliau sicrwydd y Bwrdd; hynny yw, monitro, adrodd a chraffu.

S11.5 Fel y cyfeiriwyd ato uchod, mae'r BILI yn y broses o ddatblygu rhaglen archwilio, a fydd yn cael ei dilysu gan y Pwyllgor Llywodraethu Clinigol. Rhoddodd y BILI rai enghreifftiau o'r cyfleoedd sydd ar gael i glinigwyr ddiweddarau eu sgiliau, ond ni ymddengys bod polisi ffurfiol wedi'i sefydlu ar gyfer diweddarau sgiliau ac adolygu gan gydweithwyr. Rydym yn cytuno ag aeddfedrwydd o **Ymateb** ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol gan fod yn rhaid i'r BILI ffurfioli'r trefniadau sydd wedi'u sefydlu os yw am symud ymlaen i Ddatblygu. Mae'n bleser gennym nodi bod y BILI yn bwriadu mynd i'r afael â datblygu prosesau cadarn ar gyfer goruchwyliaeth glinigol yn ystod y flwyddyn i ddod.

S11.6 Rhoddodd ymateb y BILI i'r cwestiynau ar lefel Profiad y Defnyddiwr beth pryder i ni. Ni esboniodd y BILI ei swyddogaeth o ran rhoi sicrwydd i gleifion bod penderfyniadau clinigol wedi'u seilio ar y dystiolaeth orau, arfer gorau na sut y mae profiadau'r cleifion yn cyfrannu at ddiweddarau sgiliau a thechnegau. Ystyriwn fod angen i'r BILI ailasesu ei ymagwedd o ran y cwestiynau ar lefel Profiad y Defnyddiwr oherwydd ar sail y rheiny sydd wedi'u cynnwys yn ei gyflwyniad 2006-2007, gallwn gadarnhau mai **Ymateb** yn unig y mae'r BILI.

Safon 12

Bydd sefydliadau gofal iechyd yn sicrhau bod cleifion a defnyddwyr gwasanaeth yn cael triniaeth a gofal effeithiol sydd:

- a. yn cydymffurfio ag arfarniadau technegol a gweithdrefnau ymyrryd y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol (NICE), ac argymhellion Grwp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru Gyfan (AWMSG);*
- b. yn seiliedig ar ganllawiau ac arferion da y cytunwyd arnynt yn genedlaethol, fel y'u diffiniwyd yn Fframweithiau'r Gwasanaeth Cenedlaethol, canllawiau clinigol NICE, y cynlluniau cenedlaethol a'r canllawiau ar ddarparu gwasanaethau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol;*
- c. yn ystyried anghenion a dymuniadau corfforol, cymdeithasol, diwylliannol a seicolegol y cleifion; ac*
- ch. yn integredig er mwyn darparu un gwasanaeth ar gyfer yr holl sefydliadau sydd i'w cynnwys, gan gynnwys sefydliadau gofal cymdeithasol.*

S12.1 Yn ôl ei hunanasesiad, daeth y BILI i'r casgliad ei fod yn **Datblygu** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S12.2 Roedd y BILL yn gallu dangos bod camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r safon hon trwy'r isod:

- Sefydlu Tîm Comisiynu ar y Cyd ar draws iechyd a gofal cymdeithasol.
- Sefydlu Grwpiau Cynllunio Ardal ar gyfer pum ardal Sir Fynwy sy'n ymgysylltu â rhanddeiliaid lleol ar draws gofal sylfaenol, gwasanaethau cymdeithasol a'r sector gwirfoddol/annibynnol.
- Cyflwyno tîm Cyflyrau Hirdymor er mwyn cynorthwyo cleifion yn yr ardal sy'n dioddef o gyflwr hirdymor.

S12.3 Rhoddodd y BILL enghreifftiau da o gydweithio ag asiantaethau a phartneriaid gofal iechyd eraill. Fodd bynnag, ni roddwyd esboniad o sut y mae'r Bwrdd yn blaenoriaethu ac yn cefnogi datblygu llwybrau gofal integredig. Rydym yn cytuno bod y BILL yn **Datblygu** ar y lefel Gorfforaethol.

S12.4 Darparodd ymatebion y BILL i'r cwestiynau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol enghreifftiau o lwybrau gofal integredig a ddatblygwyd ac sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd. Roedd y rhain yn cynnwys llwybr gofal atal hunanladdiad, llwybr codymau cyffredinol a llwybr ar gyfer cleifion strôc, a rhoddwyd manylion am y cyfleoedd sydd ar gael i'r staff o ran hyfforddiant a chefnogaeth. Felly, gallwn gytuno â'r lefel aeddfedrwydd o **Ddatblygu** ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol.

S12.5 Roedd ymatebion y BILL i'r cwestiynau ar lefel Profiad y Defnyddiwr yn gyfyngedig. Gallwn gytuno ag asesiad o **Ymateb** yn unig ar gyfer lefel Profiad y Defnyddiwr.

Safon 13

Bydd gan sefydliadau gofal iechyd, sydd naill ai'n arwain neu'n cyfrannu at waith ymchwil, systemau i sicrhau bod egwyddorion a gofynion y fframwaith llywodraethu ymchwil yn cael eu cymhwyso'n gyson.

S13.1 Yn ôl ei hunanasesiad, daeth y BILL i'r casgliad ei fod yn **Ymwybodol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S13.2 Mae'r BILL wedi nodi bod angen gweithredu ynglyn â'r maes hwn ac mae'n datgan yn ei ymateb ei fod yn aros am ganllawiau a chefnogaeth bellach gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ynghylch sicrhau bod gweithdrefnau llywodraethu ymchwil cadarn yn cael eu sefydlu. Ar hyn o bryd mae'r BILL yn sicrhau bod pob cais ar gyfer ymchwil yn derbyn asesiad risg ac archwiliad gan y Grwp Cydlynu Llywodraethu Clinigol.

S13.3 Rydym yn cytuno ag asesiad y BILL ei fod yn **Ymwybodol** ar bob un o'r tair lefel.

4.3 Rheoli Gofal Iechyd

Safon 14

Mae sefydliadau gofal iechyd yn mynd ati'n barhaus ac yn systematig i adolygu a gwella'r holl agweddau ar eu gweithgareddau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar ddiogelwch ac iechyd y cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, staff a'r cyhoedd. Byddant nid yn unig yn parchu'r ddeddfwriaeth, ond hefyd yn defnyddio arferion gorau wrth asesu a rheoli risg.

S14.1 Yn ôl ei hunanasesiad, daeth y BILL i'r casgliad ei fod yn **Datblygu** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S14.2 Mae'r BILL wedi sefydlu ystod o bolisiâu a threfniadau gyda'r nod o fodloni'r safon hon. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Polisi Iechyd a Diogelwch a chyfres o bolisiâu cysylltiedig.
- Proses flynyddol ar gyfer adolygu polisiâu.
- Polisi Adrodd am Ddamweiniau fu Bron a Digwydd.
- Grwp Rheoli Risgiau sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Gyfarwyddiaethau.
- Cyflogi unigolyn cymwys annibynnol i ystyried ac asesu materion iechyd a diogelwch.
- Arweinydd Iechyd a Diogelwch ar Lefel y Bwrdd.
- Adrodd am faterion iechyd a diogelwch yn chwarterol i'r Cyd-grwp Staff.

S14.3 Adroddir am faterion Diogelwch Cleifion i'r Pwyllgor Llywodraethu Clinigol hefyd. Rydym yn fodlon bod y BILL wedi sefydlu'r trefniadau angenrheidiol ar y lefel Gorfforaethol ac felly rydym yn cytuno ag aeddfedrwydd o **Ddatblygu**; ond byddem wedi hoffi gweld mwy o fanylion am drefniadau monitro'r Bwrdd a thystiolaeth o welliant parhaus.

S14.4 Mae'r BILL wedi sefydlu trefniadau er mwyn sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'r gofynion deddfwriaethol a'r arferion gorau sy'n ymwneud â rheoli risgiau: mae sesiwn ddysgu flynyddol ar faterion llywodraethu yn cael ei darparu gan y Timau Gwasanaethau Corfforaethol a Chyllid. Mae'r holl staff yn ymgymryd ag e-hyfforddiant Iechyd a Diogelwch ac yn mynychu sesiynau ymwybyddiaeth. Mae

angen gwneud mwy o waith i sicrhau bod y staff yn cyfrannu at weithgareddau ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n effeithio'n gadarnhaol ar iechyd a diogelwch cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, staff a'r cyhoedd gan fod ymateb y BILI i'r cwestiwn hwn yn wan. Felly, ystyriwn fod y BILI yn **Ymateb** ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol.

S14.5 Ni ddarparodd y BILI dystiolaeth o '*Sut y mae cleifion a defnyddwyr gwasanaeth yn ymwneud â datblygu rhaglenni gwella ansawdd*'. Serch hynny, fe roddodd enghraifft o'r camau a gymerwyd mewn ymateb i fater a amlygwyd fel risg bosibl i ddiogelwch cleifion. Ni chofnodwyd unrhyw doriadau mewn deddfwriaeth yn ystod 2006-2007. Ystyriwn fod y BILI yn **Datblygu** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

Safon 15

Mae sefydliadau gofal iechyd, gan gydnabod y gwahanol anghenion o ran iaith a chyfathrebu, yn sicrhau bod cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, perthnasau a gofalwyr:

- a. yn gallu rhoi adborth ar eu profiadau ac ansawdd y gwasanaethau;*
- b. yn cael sicrwydd bod eu cwynion yn cael sylw prydlon a thrylwyr yn unol â'r weithdrefn;*
- c. yn cael gwybodaeth am gymorth eiriolaeth ar gyfer cwynion a ddarperir gan Gyngorau Iechyd Cymuned yng Nghymru; ac*
- ch. yn cael sicrwydd bod y sefydliadau yn ymateb i unrhyw bryderon ac yn gwneud newidiadau priodol er mwyn gwella'r broses o ddarparu gwasanaethau.*

S15.1 Yn ôl ei hunanasesiad, daeth y BILI i'r casgliad ei fod yn **Datblygu** ar y lefelau Gorfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol ac yn **Ymarfer** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

S15.2 Mae'r ymatebion i'r cwestiynau ar y lefel Gorfforaethol yn canolbwyntio ar y broses Gwynion yn unig a byddai wedi bod yn ddefnyddiol gweld sut yr ymdrinnir â sylwadau a chanmoliaeth. Nid yw cwynion yn cael eu monitro ar sail hil, anabledd, crefydd a chred, oed, rhyw neu rywioldeb, ond mae'r Grwp Cydlynu Llywodraethu Clinigol yn monitro cwynion ac yn darparu gwybodaeth chwarterol i'r Bwrdd trwy'r Adroddiad Perfformiad. Mae *Gweithdrefn Gwyno'r* BILI yn amlinellu'r gweithdrefnau y dylid eu defnyddio a'r amserlenni sydd i'w dilyn.

S15.3. Rydym yn cytuno ag asesiad y BILI ei fod yn **Datblygu** ar y lefel Gorfforaethol.

S15.4 Mae ymatebion y BILI i'r cwestiynau ar y lefel weithredol yn nodi mai'r gefnogaeth leiaf yn unig a roddir i'r staff o ran sicrhau bod cleifion yn gallu rhoi adborth am eu profiad yn yr iaith o'u dewis. Mae rhywfaint o waith da i'w weld; er enghraifft, mae'r staff sy'n gweithio ym maes nam ar y synhwyrâu yn mynychu hyfforddiant gan SENSE. Ni roddodd y BILI enghreifftiau o adborth a roddwyd i gleifion er mwyn eu hysbysu ynghylch gwelliannau a wnaed yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Ni wnaeth ychwaith gynnig sylwadau ar sut y mae'n hysbysu cleifion o'u hopsiynau a'u dewisiadau ar gyfer rhoi adborth, gan gyfeirio yn unig at ganllawiau ar sut i wneud cwyn neu sut i gael gafael ar wybodaeth mewn iaith wahanol neu mewn print bras. Felly, ystyriwn fod y BILI yn **Ymateb** ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

Safon 16

Mae gan sefydliadau gofal iechyd systemau ar waith:

- a. i nodi pob digwyddiad yn ymwneud â diogelwch cleifion a digwyddiadau eraill y gellir eu cofnodi, a dysgu ganddynt;*
- b. i adrodd digwyddiadau i System Genedlaethol Adrodd a Dysgu'r Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion (NPSA) a sefydliadau eraill, yn unol â'r canllawiau presennol;*
- c. dangos eu bod yn gwella eu harferion ar sail gwybodaeth a phrofiadau lleol a chenedlaethol a rennir sy'n deillio o'r dadansoddiad o ddigwyddiadau; a*
ch. sicrhau bod pobl yn gweithredu yn ôl hysbysiadau a rhybuddion diogelwch, a negeseuon eraill yn ymwneud â diogelwch y cleifion, o fewn y terfynau amser.

S16.1 Yn ôl ei hunanasesiad, daeth y BILI i'r casgliad ei fod yn **Datblygu** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol ac yn **Ymarfer** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

S16.2 Cytunodd y BILI ar Bolisi a Gweithdrefnau ar gyfer Adrodd am Ddigwyddiadau Diogelwch Cleifion yn 2005. Mae'r Pennaeth Llywodraethu Clinigol yn cynnal cronfa ddata o ddigwyddiadau yr adroddir amdanynt ac fe'i hadolygir yn rheolaidd i weld a ellir nodi unrhyw dueddiadau a themâu. Cyflwynir adroddiadau chwarterol i'r Pwyllgor Llywodraethu Clinigol sydd, yn eu tro, yn cael eu cyflwyno trwy'r adroddiad diweddar i'r Bwrdd. Mae digwyddiadau'n cael eu cynnwys yn System Genedlaethol Adrodd a Dysgu yr Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion (NPSA) gan y Cydgysylltydd Clinigol.

S16.3 Ni ymatebodd y BILI i'r cwestiwn ynghylch sut yr oedd y Bwrdd yn sicrhau bod profiadau a gwybodaeth leol a chenedlaethol ynglyn â digwyddiadau yn cael eu cynnwys mewn dulliau effeithiolrwydd clinigol a gwella ansawdd. Wedi dweud hynny, rydym yn barod i gytuno ar aeddfedrwydd o **Ddatblygu** ac mae'n bleser gennym nodi'r newidiadau i'r dulliau adrodd am ddigwyddiadau a fydd yn sicrhau mwy o brydlondeb o ran adrodd am ddigwyddiadau i'r Bwrdd a gwell integreiddio gyda threfniadau rheoli risgiau.

S16.4 Nid oedd yr ymatebion i'r gyfres o gwestiynau ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol wedi'u datblygu'n dda ac argymhellwn fod y BILI yn ystyried cryfhau'r canllawiau a'r hyfforddiant ar gyfer y staff i'w cynorthwyo wrth nodi, ymchwilio a dadansoddi tueddiadau ac i newid eu harferion gweithio, yn ogystal â'r prosesau ar gyfer sicrhau bod gwersi lleol a chenedlaethol yn cael gweithredu. Rydym yn asesu bod y BILI yn **Ymateb** ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol.

S16.5 Mae'r BILI yn dibynnu ar staff y gwasanaethau gofal sylfaenol i ddosbarthu ymhlith ei gilydd unrhyw wersi a ddysgwyd o ganlyniad i ddigwyddiadau diogelwch cleifion cenedlaethol a lleol. Fodd bynnag, cydnabyddir yn asesiad y BILI y gellid rheoli hyn yn fwy cadarn. Rydym yn asesu bod y BILI yn **Datblygu** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

Safon 17

Bydd sefydliadau gofal iechyd yn cydymffurfio â chanllawiau cenedlaethol ar amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed wrth gynnal eu gweithgareddau eu hunain ac wrth ddelio â sefydliadau eraill.

S17.1 Yn ôl ei hunanasesiad, daeth y BILI i'r casgliad ei fod yn **Datblygu** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S17.2 Roedd y BILI yn gallu dangos ei fod yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r safon hon ac mae rhai o'r rhain yn cynnwys:

- Mabwysiadu gweithdrefnau Cymru Gyfan ar gyfer Amddiffyn Plant
- Datblygu Strategaeth Amddiffyn Plant
- Darparu hyfforddiant i'r Bwrdd ar faterion amddiffyn plant

- Adroddiadau rheolaidd i'r Bwrdd ar faterion Amddiffyn Plant gan nyrs ddynodedig y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol (NPHS) ar gyfer Amddiffyn Plant
- Aelod dynodedig o'r Bwrdd nad yw'n swyddog sy'n arwain ar faterion Amddiffyn Plant
- Swyddog Gweithredol Arweiniol dros Amddiffyn Plant
- Gofyniad i gydymffurfio â chanllawiau Amddiffyn Plant ac Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed (POVA) a amlinellir mewn Cytundebau Hirdymor a Chytundebau Lefel Gwasanaeth
- Y Bwrdd yn cytuno â Pholisi POVA De-ddwyrain Cymru
- Ystyried digwyddiadau POVA fel rhan o'r prosesau monitro ac adolygu sy'n ymwneud â chomisiynu
- Hyfforddiant Amddiffyn Plant Gorfodol ar gyfer staff gofal sylfaenol
- Hyfforddiant ymwybyddiaeth o Amddiffyn Plant a POVA ar gyfer staff y BILI

S17.3 Mae gwaith yn mynd rhagddo hefyd i ymgysylltu ag Optometryddion Sir Fynwy yn barod ar gyfer cyflwyno hyfforddiant Amddiffyn Plant. Rydym yn cadarnhau bod y BILI yn **Datblygu** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol ar gyfer y safon hon gyda rhai elfennau sy'n ymwneud ag Amddiffyn Plant yn symud tuag at Ymarfer.

S17.4 Roedd nifer uchel o ddigwyddiadau yn ymwneud ag amddiffyn plant (85) a POVA (131) yn ardal Sir Fynwy yn ystod y cyfnod adrodd 12 mis ar gyfer y broses asesu hon. Rhoddodd y BILI dystiolaeth i ddangos bod dulliau priodol wedi'u sefydlu ar gyfer adrodd, ymchwilio a monitro digwyddiadau o'r fath. Ymgymerir ag archwiliadau SCT ar gyfer yr holl staff newydd, ni all Meddygon Teulu na Deintyddion weithio heb archwiliadau SCT cyfredol ac mae angen archwiliadau SCT ar Fferyllwyr sy'n ymgymryd â gwasanaethau uwch sy'n golygu cyswllt un i un gyda chleifion. Fodd bynnag, credwn y dylai'r BILI sicrhau bod unrhyw aelodau o staff sydd wedi gweithio am gyfnod hir gyda'r BILI sydd nid yn unig mewn cysylltiad â chleifion ond sydd hefyd yn cael mynediad at wybodaeth am unigolion, yn cael archwiliadau SCT. Rhaid ystyried statws Optometryddion yn y cyswllt hwn hefyd.

S17.5 Er ein bod yn cytuno ag asesiad y BILI ei fod yn **Ddatblygu** ar lefel Profiad y Defnyddiwr, credwn fod angen i'r BILI fynd i'r afael â mater archwiliadau SCT, ac o ystyried y nifer uchel o ddigwyddiadau POVA, mae angen rhoi ystyriaeth i archwilio cydymffuriad â SCT/POVA ar draws sefydliadau darparwyr.

Safon 18

Mae sefydliadau gofal iechyd wedi cynllunio a pharatoi ymateb trefnus i ddigwyddiadau ac argyfyngau a allai effeithio ar ddarpariaeth y gwasanaethau arferol, ac wedi ymarfer yr ymateb lle y bo'n ofynnol.

S18.1 Yn ôl ei hunanasesiad, daeth y BILI i'r casgliad ei fod yn **Datblygu** ar y lefel Gorfforaethol ac yn **Ymarfer** ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S18.2 Cyfrifoldeb y Prif Weithredwr yw effeithiolrwydd cynllunio at argyfwng. Mae Cynllun Digwyddiadau Mawr wedi'i sefydlu ac mae'r Prif Weithredwr yn paratoi adroddiad blynyddol ar barodrwydd am argyfwng, sy'n cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cynulliad Cymru a'r Bwrdd.

S18.3 Mae cynllun y BILI yn ystyried Cofrestr Risgiau Fforwm Lleol Cymru Gydnerth Gwent yn ogystal â risgiau lleol penodol, yn enwedig y rheiny sy'n deillio o grwpiau Cynllunio Twannel Hafren a Chynllunio Glascoed. Mae'r BILI wedi cymryd rhan mewn nifer o ffug ymarferion gan gynnwys profi trefniadau ar alwad.

S18.4 O ystyried yr uchod, rydym yn cytuno ag asesiad y BILI ei fod yn **Datblygu** ar y lefel Gorfforaethol ac yn **Ymarfer** ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol.

S18.5 Ychydig o dystiolaeth a roddwyd gan BILI o sut y mae cynlluniau wedi'u gwella o ganlyniad i'r gwaith profi, felly ystyriwn fod y BILI yn **Datblygu** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

Safon 19

Mae sefydliadau gofal iechyd yn sicrhau:

- a. bod cyn lleied o beryglon â phosibl yn gysylltiedig â chaffael a defnyddio dyfeisiau meddygol;*
- b. bod dyfeisiau meddygol aml dro yn cael eu diheintio'n briodol cyn eu defnyddio, a bod peryglon sy'n gysylltiedig â'r cyfleusterau a'r prosesau diheintio yn cael eu rheoli'n effeithiol;*
- c. bod materion yn ymwneud ag ansawdd a diogelwch meddyginiaethau yn cael eu rheoli; a*
ch. bod y gwaith o atal, trin a thrafod, cludo a gwaredu gwastraff a'r gwaith o'i gadw ar wahân yn cael ei reoli fel bod cyn lleied â phosibl o beryglon i iechyd a diogelwch y staff, y cleifion a'r cyhoedd ac i'r amgylchedd.

S19.1 Yn ôl ei hunanasesiad, daeth y BILI i'r casgliad ei fod yn **Datblygu** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S19.2 Roedd y BILI yn gallu dangos bod polisiau a gweithdrefnau wedi'u sefydlu i fynd i'r afael â'r safon hon, ac mae'r rhain yn cynnwys:

- Polisi Iechyd a Diogelwch
- Proses a Pholisi Caffael sy'n ymdrin â chaffael offer
- Fel rhan o ymweliadau blynyddol y Fframwaith Canlyniadau Ansawdd, monitro cydymffurfio â gofynion y Contract Gwasanaethau Meddygol
Cyffredinol/Fframwaith Canlyniadau Ansawdd sy'n sicrhau bod offer yn cael ei archwilio, ei raddnodi, ei gynnal a'i gadw, a'i newid yn rheolaidd ac yn briodol, a bod canllawiau diheintio yn cael eu dilyn.
- Polisi Atal Heintiau
- Polisi Gwastraff Clinigol
- Strategaeth a Chynllun Gweithredu Rheoli Meddyginiaethau
- Adroddiadau chwarterol i'r Bwrdd ar ragnodi
- Trefniadau gyda'r Ganolfan Gwasanaethau Busnes ar gyfer rheoli cytundebau gwastraff ar gyfer gofal sylfaenol ar ran y BILI
- Cynnal cronfa ddata offer sy'n cael ei monitro'n rheolaidd gan y Gwasanaethau Corfforaethol sy'n trefnu profion rheoli ansawdd
- Hyrwyddo defnyddio offer meddygol untro gan bractisiau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol

S19.3. Rydym yn cytuno ag asesiad y BILI ei fod yn **Datblygu** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr, ond byddem wedi dymuno gweld mwy o fanylion ynglyn â sut y mae'r staff yn cael eu hyfforddi a dulliau adrodd a monitro'r Bwrdd yn enwedig o ran sicrhau bod meddyginiaethau'n cael eu defnyddio'n ddiogel ac yn effeithiol.

Safon 20

Mae sefydliadau gofal iechyd yn mynd ati i wella'r gofal ar gyfer cleifion a boddhad y staff yn barhaus, gan ddefnyddio arferion gorau wrth reoli adnoddau dynol.

S20.1 Yn ôl ei hunanasesiad, daeth y BILI i'r casgliad ei fod yn **Datblygu** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol ac yn **Ymarfer** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

S20.2 Mae gan y BILI Strategaeth Recriwtio a Chadw sydd wedi derbyn cymeradwyaeth y Bwrdd ac ystod o bolisiâu a gweithdrefnau Adnoddau Dynol sydd naill ai wedi'u datblygu'n lleol neu ar lefel Cymru gyfan. Mae Adran Adnoddau Dynol y Ganolfan Gwasanaethau Busnes yn darparu cyngor Adnoddau Dynol proffesiynol. Ystyriwn fod y BILI wedi dangos cyfeiriad strategol ac arfer da o ran rheoli Adnoddau Dynol ar draws y BILI. Nid oedd tystiolaeth o fonitro gan y Bwrdd a gwelliant parhaus yn amlwg. Felly, rydym yn cytuno â'i asesiad ei fod yn **Datblygu** ar y lefel Gorfforaethol.

S20.3 Ni roddodd y BILI enghreifftiau o'r gwelliannau a wnaed i wasanaethau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf o ganlyniad uniongyrchol i fentrau staff. Serch hynny, fe gyfeiriodd yn ei ymateb at ddiwrnodau hyfforddi ar y cyd â Dyffryn Mynwy a oedd yn nodi themâu allweddol ar gyfer hyfforddiant pellach a fyddai'n eu helpu i wella gwasanaethau a hwyluso newidiadau posibl i arferion yn y dyfodol. Rhoddwyd enghreifftiau o'r ffyrdd y mae'r staff yn cael eu hannog i wella gwasanaethau, megis sesiynau amser saib, gweithdai a chyfarfodydd staff rheolaidd pryd y rhennir safbwyntiau ynglyn â chynllunio a darparu gwasanaethau. Felly, rydym yn cytuno bod y BILI yn **Datblygu** ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

Safon 21

Mae sefydliadau gofal iechyd:

- a. yn cynnal yr holl gamau gwirio gofynnol cyn cyflogi ac yn sicrhau bod yr holl staff cymwys, boed yn gyflogedig neu ar gontract, yn cael eu cofrestru â'r sefydliadau perthnasol;*
- b. yn gofyn i'r holl staff proffesiynol cyflogedig gadw at eu codau ymarfer ac ymddygiad proffesiynol; ac*
- c. yn mynd i'r afael os bydd angen â grwpiau lleiafrifol a dangynrychiolir.*

S21.1 Yn ôl ei hunanasesiad, daeth y BILI i'r casgliad ei fod yn **Datblygu** ar y lefel Gorfforaethol ac yn **Ymarfer** ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S21.2 Rydym yn fodlon bod y BILI wedi sefydlu'r gweithdrefnau angenrheidiol ar y lefel Gorfforaethol i gefnogi sgôr aeddfedrwydd o **Ddatblygu**. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Polisi Recriwtio a Chadw.
- Polisi a Chanllawiau Recriwtio a Dethol.
- Polisi Cydraddoldeb.
- Côd Ymddygiad ar gyfer Rheolwyr y GIG.
- Canllawiau SCT a phroses archwilio gysylltiedig.
- Polisi'r Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd.
- Aseidiadau Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer yr holl bolisiau Adnoddau Dynol newydd.
- Holiaduron cydraddoldeb ac adroddiadau statws.
- Archwilio gwerthusiadau Meddygon Teulu fel rhan o ymweliadau'r Fframwaith Canlyniadau Ansawdd.
- Dosbarthu cylchlythyron rhybudd misol gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ynglyn â 'Chyhuddiadau Ymddygiad Proffesiynol'.
- Proses a dogfennau sefydlu.
- Archwilio ffeiliau personél bob chwe mis.
- Dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer Adnoddau Dynol.

S21.3 Er y cyfeirir at broses flynyddol ar gyfer gwirio bod contractwyr gofal sylfaenol wedi'u cofrestru gyda'r sefydliad proffesiynol perthnasol, nid ymddengys bod

prosesau wedi'u sefydlu ar gyfer monitro staff y BILI a grwpiau eraill o staff yn barhaus. Ac oherwydd ni roddwyd unrhyw dystiolaeth o werthuso a meincnodi, rydym yn asesu bod y BILI yn **Datblygu** ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol.

S21.4 Roedd y BILI yn gallu darparu tystiolaeth fod prosesau ar gael i ymdrin â sefyllfaoedd o ddiffyg cydymffurfio â'r prosesau recriwtio sydd wedi'u sefydlu ac sy'n cael eu gweithredu. Gallwn gadarnhau asesiad y BILI ei fod yn **Ymarfer** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

Safon 22

Mae sefydliadau gofal iechyd yn sicrhau bod staff:

- a. yn cael eu recriwtio'n briodol, eu bod wedi cael hyfforddiant priodol a bod ganddynt y cymwysterau priodol ar gyfer y gwaith;*
- b. yn cymryd rhan mewn rhaglenni cynefino a rhaglenni hyfforddi gorfodol; ac*
- c. yn cymryd rhan mewn cynllun datblygu proffesiynol a galwedigaethol parhaus.*

S22.1 Yn ôl ei hunanasesiad, daeth y BILI i'r casgliad ei fod yn **Datblygu** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol ac yn **Ymarfer** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

S22.2 Er mwyn cynorthwyo wrth gyflawni'r Safon hon mae'r BILI wedi sefydlu'r systemau a'r prosesau canlynol:

- Cyfres o bolisiau Adnoddau Dynol.
- Disgrifiadau swyddi, manylebau personél a phroffil Fframwaith Gwybodaeth a Sgiliau ar gyfer pob swydd.
- System Adolygu Datblygiad Personol.
- Polisi a Fframwaith Rheoli Perfformiad.
- Cynllun Hyfforddi Corfforaethol a ddatblygwyd o ganlyniadau Adolygiadau Datblygiad Personol.
- Prosesau Sefydlu Corfforaethol a Lleol.
- Proses Werthuso sy'n cynnwys Datblygiad Proffesiynol Parhaus ac Adolygu Datblygiad Personol.
- Cofnodion Hyfforddiant.
- Polisi Gallu.

S22.3 Tystiolaeth gyfyngedig yn unig y mae'r BILI wedi'i darparu i ddangos bod y Bwrdd yn monitro ac yn sicrhau gwelliant parhaus, ond gallwn gadarnhau tystiolaeth o gyfeiriad strategol ac arfer da ac felly rydym yn cytuno bod y BILI yn **Datblygu** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol.

S22.4 Ni allwn gadarnhau asesiad y BILI ei fod yn **Ymarfer** ar lefel Profiad y Defnyddiwr ac ystyriwn mai dim ond **Ymateb** y mae'r BILI. Rydym yn cydnabod bod gwaith yn parhau ynglyn â'r Fframwaith Gwybodaeth a Sgiliau. Dywedodd nifer o staff wrthym a fynychodd y grwp ffocws staff nad oeddynt wedi derbyn gwerthusiad. Yn ogystal, nid oedd y rheiny a oedd wedi cael gwerthusiad ac wedi cwblhau cynllun datblygu wedi derbyn yr hyfforddiant a'r datblygiad a nodwyd yn eu cynllun. Nodwyd cyfyngiadau ariannol fel y rhesymau pam nad oedd y BILI yn annog datblygiad personol.

Safon 23

Mae sefydliadau gofal iechyd yn sicrhau bod staff yn cael cymorth gan:

- a. brosesau sy'n caniatáu iddynt fynegi pryderon ynghylch unrhyw agwedd ar y broses ddarparu, y triniaethau neu'r broses reoli, a hynny'n gyfrinachol a heb beryglu eu safle; a chan*
- b. raglenni datblygu sefydliadol a rhaglenni datblygu personol sy'n cydnabod cyfraniad a gwerth y staff.*

S23.1 Yn ôl ei hunanasesiad, daeth y BILI i'r casgliad ei fod yn **Ymarfer** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S23.2 Mae'r BILI wedi sefydlu Polisiâu Chwythu'r Chwiban, Twyll, ac Urddas yn y Gweithle a gall aelodau o staff fynegi eu pryderon i aelod o'r Bwrdd nad yw'n swyddog os ydynt yn teimlo na allant eu codi gyda swyddogion. Mae sesiynau ymwybyddiaeth ynglyn â Chwythu'r Chwiban, Twyll, Bwlio ac Aflonyddu, Rheoli Straen ac Iechyd a Lles wedi'u darparu i'r staff.

S23.3 Ychydig iawn o dystiolaeth a roddodd y BILI i ddangos sut y mae'n cydnabod cyfraniad y staff ac ni ddangosodd sut yr aethpwyd i'r afael â phryderon a godwyd gan y staff yn anffurfiol. Yn ogystal, fel y nodwyd yn flaenorol, dywedodd y staff wrthym fod materion yn codi ynglyn â darparu hyfforddiant. Ystyriwn fod y BILI yn

Datblygu ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol, ond ei fod yn **Ymateb** yn unig ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

Safon 24

Mae sefydliadau gofal iechyd yn cydweithio â phartneriaid gofal cymdeithasol ac eraill i fodloni anghenion iechyd eu poblogaeth drwy:

- a. fod â gweithlu sydd â'r gymysgedd briodol o sgiliau ac sy'n adlewyrchu'r gymuned yn gyffredinol; a*
- b. sicrhau bod y gwasanaethau'n gwella'n barhaus drwy ddatblygu ffyrdd gwell o weithio.*

S24.1 Yn ôl ei hunanasesiad, daeth y BILI i'r casgliad ei fod yn **Arwain** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol ac yn **Datblygu** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

S24.2 Yn y cyfarfodydd *Uwchgynhadledd Iechyd* a gynhaliwyd ym mis Awst, cytunodd yr holl sefydliadau adolygu fod BILI Sir Fynwy yn esiampl dda o ran gwaith partneriaeth ac mae ei ymateb yn cadarnhau hyn, gan gynnig enghreifftiau niferus ac amrywiol o drefniadau partneriaeth, strategaethau ar y cyd, a hyfforddiant a ffyrddiau gwaith ar y cyd. Mae'r BILI wedi sefydlu timau comisiynu ar y cyd ac mae nifer o swyddi ar y cyd wedi'u sefydlu ar draws y BILI a'r Awdurdod Lleol.

Mae'r enghreifftiau o fentrau ar y cyd yn cynnwys:

- *Y Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol* ar gyfer oedolion o oedran gweithio – sydd wedi'i integreiddio ar draws iechyd a gofal cymdeithasol
- *Y Prosiect Gofalwyr* sy'n cynnwys pum aelod sy'n gweithio ar draws iechyd, gofal cymdeithasol a'r sector gwirfoddol
- Strategaeth a Chynllun Gweithredu ar y Cyd ar gyfer Cynnwys
- Sefydlu pum grwp Cynllunio Ardal ar draws Sir Fynwy i weithio gyda rhanddeiliaid er mwyn datblygu *Cynllun Gofal y Tu Allan i'r Ysbyty*
- Hyfforddiant integredig ar draws iechyd a gofal cymdeithasol
- Sefydlu *Tîm Ailalluogi*
- Dyffryn Mynwy - cyfleuster gofal integredig

Felly, gallwn gytuno ag asesiad y BILI ei fod yn **Arwain** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol.

S24.3 Darparodd y BILI ystod o enghreifftiau o fentrau sy'n cael eu datblygu i wella Profiad y Defnyddiwr, ond ni esboniodd sut y mae profiad y defnyddiwr wedi gwella. Er gwaethaf hyn, rydym yn cytuno ag asesiad y BILI ei fod yn **Datblygu**, gan yr ymddengys bod profiad unigolion yn gwella mewn sawl maes.

Safon 25

Mae sefydliadau gofal iechyd yn defnyddio systemau gwybodaeth effeithiol a thechnoleg gwybodaeth integredig i gefnogi a gwella'r gofal ar gyfer cleifion, ac wrth gomisiynu a chynllunio gwasanaethau.

S25.1 Yn ôl ei hunanasesiad, daeth y BILI i'r casgliad ei fod yn **Ymarfer** ar y lefel Gorfforaethol ac yn **Datblygu** ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S25.2 Mae Polisi Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg (IM&T) a gymeradwywyd gan y Bwrdd wedi'i sefydlu ac mae cyfrifoldeb dros systemau IM&T wedi'i ddirprwyo i'r Cyfarwyddwr Cyllid. Nid yw'r ymateb a roddwyd gan y BILI yn dangos sut y mae'r Bwrdd yn derbyn sicrwydd bod systemau IM&T y BILI yn effeithiol ac yn integredig, ac nid yw ychwaith yn amlinellu sut y mae'r Bwrdd yn sicrhau bod y wybodaeth a gesglir yn cael ei defnyddio i ddylanwadu ar wasanaethau. Felly, gallwn gadarnhau aeddfedrwydd o **Ddatblygu** yn unig ar y lefel Gorfforaethol.

S25.3 O ran y cwestiynau ar y lefel Weithredol, roedd y BILI yn gallu darparu nifer o enghreifftiau i ddangos sut y mae'r staff yn cael eu hyfforddi a'u hysbysu o ran y gwahanol systemau gwybodaeth sydd wedi'u sefydlu. Roedd hyn yn cynnwys staff gofal sylfaenol ynghyd â staff y BILI ei hun. Felly, rydym yn cytuno ag asesiad y BILI ei fod yn **Datblygu** ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol.

S25.4 Cadarnhaodd y BILI fod y tîm Perfformiad yn archwilio ac yn dilysu gwybodaeth a ddarperir gan y Ganolfan Gwasanaethau Busnes yn rheolaidd. Rydym yn cytuno ag asesiad y BILI ei fod yn **Datblygu** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

Safon 26

Mae gan sefydliadau gofal iechyd brosesau rheoli cofnodion effeithiol wedi'u sefydlu i sicrhau:

- a. bod sefydliad, o'r foment y caiff cofnod ei greu nes iddo gael ei ddileu, yn diweddar'u wybodaeth i ateb y diben gweithredol, ac yn dileu'r wybodaeth yn briodol pan na fo'i hangen mwyach arnynt; a*
- b. bod gwybodaeth am gleifion yn cael ei chadw'n gyfrinachol.*

S26.1 Yn ôl ei hunanasesiad, daeth y BILI i'r casgliad ei fod yn **Ymarfer** ar y lefelau Corfforaethol a Phrofiad y Defnyddiwr ac yn **Datblygu** ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol.

S26.2 Mae *Strategaeth Rheoli Cofnodion* a gweithdrefnau rheoli cofnodion cysylltiedig wedi'u sefydlu. Fodd bynnag, ni ddarparwyd unrhyw dystiolaeth o fonitro gan y Bwrdd nac o welliant parhaus ar draws y BILI, ac felly rydym yn asesu bod y BILI yn **Datblygu** ar y lefel Gorfforaethol.

S26.3 Mae cydymffurfio â'r broses rheoli cofnodion yn cael ei fonitro trwy ddefnyddio Dangosyddion Perfformiad Allweddol y cytunwyd arnynt gan y Tîm Rheoli. Ni ddarparwyd unrhyw dystiolaeth o archwilio systematig. Darparwyd tystiolaeth o'r camau a gymerwyd gan y BILI yn ystod y 12-18 mis diwethaf i wella rheoli cofnodion, ond nid oedd yn glir a oedd y rhain yn deillio o archwilio. Felly, rydym yn asesu bod y BILI yn **Datblygu** ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol, ond ei fod yn **Ymateb** yn unig ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

Safon 27

Mae trefniadau llywodraethu ar sail arferion da wedi'u sefydlu sydd:

- a. yn cymhwyso egwyddorion llywodraethu corfforaethol a chlinigol cadarn;*
- b. yn sicrhau proses gadarn ar gyfer rheolaeth ariannol, ac atebolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau;*
- c. yn mynd ati i helpu'r holl staff i hybu gonestrwydd, uniondeb, atebolrwydd a'r egwyddor o fod yn agored ac i ddefnyddio adnoddau'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol.*
- ch. yn mynd ati'n systematig i gynnal asesiadau risg a rheoli risg; ac*
- d. yn cael eu hintegreiddio ar draws yr holl gymunedau iechyd a rhwydweithiau clinigol.*

S27.1 Yn ôl ei hunanasesiad, daeth y BILI i'r casgliad ei fod yn **Ymarfer** ar y lefelau Corfforaethol a Phrofiad y Defnyddiwr ac yn **Datblygu** ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol.

S27.2 Yn ei ymateb mae'r BILI yn cadarnhau ei fod yn symud tuag at strwythur llywodraethu integredig, ond ar hyn o bryd y Pwyllgor Archwilio sy'n gyfrifol am faterion llywodraethu corfforaethol ac ariannol, a'r Pwyllgor Llywodraethu Clinigol sy'n gyfrifol am faterion Llywodraethu Clinigol. Mae'r Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Llywodraethu Clinigol yn adrodd i'r Bwrdd.

S27.3 Amlinellir trefniadau Rheolaeth Ariannol ac atebolrwydd mewn Gorchmynion Sefydlog a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog ac mae Matrics Awdurdodi a Gweithdrefnau Ariannol yn sail i'r rhain. Cyflwynir adroddiadau ariannol i'r Bwrdd ym mhob un o'i gyfarfodydd ac mae'r Gyfarwyddiaeth Ariannol yn ymgymryd â rheolaeth ariannol o ddydd i ddydd.

S27.4 Cynhelir holl gyfarfodydd y Bwrdd yn gyhoeddus a gosodir holl bapurau'r Bwrdd ar wefan y BILI gyda chopïau ohonynt yn cael eu rhoi i lyfrgelloedd Sir Fynwy. Mae Strategaeth Rheoli Risgiau y cytunwyd arno gan y Bwrdd a Grwp Rheoli Risgiau wedi'u sefydlu. Y Grwp Rheoli Risgiau sy'n gyfrifol am grynhoi Cofnod Risgiau'r BILI, sy'n cael ei adolygu a'i graffu gan y Pwyllgor Archwilio.

S27.5 Hysbysir y staff o'u cyfrifoldeb o ran llywodraethu da a rhoddodd y BILI enghreifftiau o sut y mae'r staff yn gweithio ar draws y gymuned iechyd tuag at lywodraethu integredig. Cynhelir ymgynghoriadau anffurfiol gyda'r staff pan fydd unrhyw newidiadau o bwys yn cael eu cynnig i weithdrefnau ariannol. Ni roddwyd tystiolaeth ddigonol o welliant parhaus er mwyn cyfiawnhau lefel aeddfedrwydd o Ymarfer ar y naill lefel neu'r llall. Felly, rydym yn ystyried bod y BILI yn **Datblygu** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol.

S27.6 Roedd yr ymateb yn rhy gryno ac ni roddwyd enghreifftiau i gefnogi'r ymateb ynglyn â sut y mae'r staff yn dylanwadu ar reolaeth ariannol. Mae prosesau ar gael i'r staff fynegi eu pryderon yn ffurfiol ynghylch rheolaeth ariannol.

S27.7 Ni roddodd y BILI enghreifftiau cadarn o '*sut y mae profiad y defnyddiwr wedi gwella o ganlyniad i drefniadau llywodraethu integredig*' ac ni amlinellodd y broses ar gyfer sicrhau bod '*profiad y defnyddiwr yn dylanwadu ar reolaeth ariannol*'. Roedd yr enghreifftiau a roddwyd yn ymwneud â'r staff yn dylanwadu ar fformat adroddiadau cyllidebol a gweithdrefnau ariannol yn unig; roeddem yn chwilio am enghreifftiau o sut y dylanwadir ar ddyrannu a defnyddio adnoddau. Felly, ystyriwn fod y BILI yn **Ymateb** yn unig ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

Safon 28

Mae sefydliadau gofal iechyd:

- a. yn sicrhau bod gwaith pob tîm a phob gwasanaeth clinigol yn dilyn egwyddorion llywodraethu clinigol;*
- b. yn gweithredu proses barhaus ar gyfer gwella ansawdd, gan gynnwys archwiliadau clinigol; ac*
- c. yn sicrhau arweiniad ac atebolrwydd effeithiol gan y staff clinigol a'r rheolwyr.*

S28.1 Yn ôl ei hunanasesiad, daeth y BILI i'r casgliad ei fod yn **Datblygu** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S28.2 Roedd y BILI yn gallu dangos bod y Bwrdd yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r safon hon trwy'r canlynol:

- Nifer o strategaethau, polisiâu a gweithdrefnau allweddol, megis y Strategaeth Llywodraethu Clinigol (a ddiwygiwyd ym mis Ebrill 2007); Polisi a Gweithdrefn ar gyfer Adrodd am Ddiogelwch Cleifion a Damweiniau Fu Bron a Digwydd, Gweithredu Polisi Canllawiau NICE, Polisi a Gweithdrefn Gwyno, Cynllun Gweithredu Treigl ar gyfer Llywodraethu Clinigol.
- Y Pwyllgor Llywodraethu Clinigol - Pwyllgor statudol o'r Bwrdd sy'n cwrdd yn chwarterol.
- Arweinydd Llywodraethu Clinigol ar Lefel y Bwrdd.
- Adroddiadau'r Bwrdd ar waith y Pwyllgor Llywodraethu Clinigol.
- Grwp Cydgysylltu Llywodraethu Clinigol sy'n allweddol o ran sbarduno a chanoli Llywodraethu Clinigol yn y BILI.
- Cynnwys Llywodraethu Clinigol a gofynion ansawdd ym mhob Cytundeb Hirdymor a Chytundeb Lefel Gwasanaeth.

S28.3 Mae'r staff yn ymwneud â datblygu a monitro systemau llywodraethu clinigol trwy'r Grwp Cydgysylltu Llywodraethu Clinigol a sesiynau hyfforddiant ac ymwybyddiaeth, megis digwyddiad 'Platfform' y BILI ar gyfer practisau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol, a ddefnyddir i gynyddu ymwybyddiaeth o'r agenda llywodraethu clinigol ymhlith y staff er mwyn sicrhau eu bod yn rhan ohono. Rhoddwyd enghreifftiau o'r staff yn defnyddio egwyddorion llywodraethu clinigol i wella gofal cleifion.

S28.4 Rydym yn cytuno ag asesiad y BILI ei fod yn **Datblygu** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr. Sylwn fod y BILI yn y camau olaf o gytuno ar Gynllun Archwilio Blynyddol a chredwn y bydd hyn yn ei helpu i symud tuag at well aeddfedrwydd yn y blynyddoedd i ddod.

4.4 Iechyd y Cyhoedd

Safon 29

Mae sefydliadau gofal iechyd yn hybu, amddiffyn a gwella iechyd y gymuned sy'n cael ei gwasanaethu ac yn lleihau anghydraddoldebau iechyd:

- a. drwy gydweithio a gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill i ddatblygu, gweithredu a gwerthuso strategaethau iechyd, gofal cymdeithasol a lles; a*
- b. thrwy sicrhau bod eu polisiau a'u harferion yn seiliedig ar asesiadau o angen a chynghor cadarn ar iechyd y cyhoedd.*

S29.1 Yn ôl ei hunanasesiad, daeth y BILI i'r casgliad ei fod yn **Ymarfer** ar y lefel Gorfforaethol ac yn **Datblygu** ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S29.2 Grwp Strategol ar y Cyd, sef '*Cynghrair Iechyd*', yw'r fforwm a ddefnyddir i ddatblygu a monitro'r Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles. Mae cyfres o grwpiau cynllunio wedi'u sefydlu ac maent yn rhoi adroddiadau am strategaethau, cynlluniau gweithredu a chynnydd i'r *Cynghrair Iechyd*. Mae'r Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles yn cael ei datblygu ar y cyd â'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc a'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol.

S29.3 Mae trefniadau gwaith partneriaeth agos gyda'r Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol (NPHS), ac mae'r Tîm Iechyd y Cyhoedd yn aelod o'r Grwp Cydgysylltu Llywodraethu Clinigol. Fodd bynnag, er mwyn dangos aeddfedrwydd o Ymarfer, byddem wedi disgwyl tystiolaeth fod dulliau monitro wedi'u sefydlu ar lefel Bwrdd y BILI a'r *Cynghrair Iechyd* a manylion ynglyn â sut y mae'r BILI yn defnyddio gwybodaeth iechyd y cyhoedd i gyfrannu at bolisiau ac arfer. Felly, ystyriwn fod y BILI yn **Datblygu** ar y lefel Gorfforaethol.

S29.4 Roedd ymateb y BILI ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol yn wan o ran cytuno ar flaenoriaethau a chynnydd yn eu herbyn. Roedd yr ymateb ynglyn â sut y mae'r Bwrdd yn cael sicrwydd bod cynghor iechyd y cyhoedd yn cael ei ddefnyddio fel sail i benderfyniadau ynghylch gwasanaethau yn gryfach ac yn ddigonol i gyfiawnhau aeddfedrwydd o **Ddatblygu** ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol.

S29.5 Mae'r ymateb i'r cwestiwn ar lefel Profiad y Defnyddiwr yn cyfeirio at gyfres o ddigwyddiadau ymgynghori a fynychwyd gan gleifion, gofalwyr, a chynrychiolwyr 'grwpiau â diddordeb', sefydliadau gwirfoddol a'r Cyngor Iechyd Cymuned. Er ein bod yn cytuno ag asesiad y BILI ei fod yn **Datblygu** ar y lefel hon, ychydig o dystiolaeth a ddarparwyd o sut y cafodd y wybodaeth a gasglwyd yn y digwyddiadau hyn ei chynnwys yn Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles 2005-2008, ac mae angen i'r BILI ddatblygu ei ymateb ymhellach yn barod ar gyfer cyflwyniad y flwyddyn nesaf.

Safon 30

Mae sefydliadau gofal iechyd:

- a. yn rheoli rhaglenni systematig ar gyfer atal clefydau a hybu iechyd sy'n cynnwys staff, ac sy'n bodloni gofynion y Fframweithiau Gwasanaeth Cenedlaethol, y cynlluniau cenedlaethol a'r blaenoriaethau o ran hybu iechyd ac atal clefydau; ac*
- b. yn ystyried yr holl bolisiau cyfredol ac arfaethedig a'r wybodaeth am faterion iechyd y cyhoedd wrth ddatblygu rhaglenni iechyd y cyhoedd, rhaglenni hybu iechyd a gwasanaethau atal, ac wrth gomisiynu a darparu gwasanaeth.*

S30.1 Yn ôl ei hunanasesiad, daeth y BILI i'r casgliad ei fod yn **Datblygu** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S30.2 Cyflwynir cynlluniau gwella iechyd, hybu iechyd ac atal clefydau sylfaenol yn bennaf trwy'r strwythurau partneriaeth sydd ar waith yn ardal Sir Fynwy. Mae'r *Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles a Chynllun Gweithredu Her Iechyd Cymru* yn amlinellu gwaith hybu iechyd sy'n canolbwyntio ar 'ffordd o fyw'. Mae amrywiaeth o grwpiau cynllunio wedi'u sefydlu sy'n gyfrifol am gynllunio gofal iechyd a chymdeithasol ar gyfer grwpiau penodol o gleientiaid.

S30.3 Mae ymateb y BILI yn darparu tystiolaeth o ystod o fentrau sydd â'r nod o hybu iechyd y cyhoedd mewn meysydd megis ysmegu, alcohol, gweithgaredd corfforol a maeth. Rydym yn cytuno ag asesiad y BILI ei fod yn **Datblygu** ar y lefel Gorfforaethol.

S30.4 Mae ymateb y BILI i'r cwestiwn ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol yn nodi bod canllawiau cenedlaethol a blaenoriaethau a nodwyd yn lleol yn cael eu hadlewyrchu mewn fframwaith atal clefydau a hybu iechyd a reolir. Er bod yr ymateb

yn canolbwyntio bron yn gyfan gwbl ar iechyd deintyddol, ystyriwn ei fod yn ddigonol i gyfiawnhau aeddfedwydd o **Ddatblygu** ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol.

S30.5 Ni ddarparodd y BILI dystiolaeth yn ymwneud â chleifion a'r cyhoedd yn dylanwadu ar y rhaglenni atal clefydau a hybu iechyd a reolir, ac ar wahân i'r Rhaglen Cleifion Arbenigol mewn diabetes a phodiatreg, ni cheir tystiolaeth o brosesau systematig ar gyfer annog a chefnogi unigolion i sylweddoli eu cyfrifoldebau eu hunain dros gynnal eu hiechyd a'u lles eu hunain. Felly, ystyriwn mai dim ond **Ymateb** y mae'r BILI ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

Safon 31

Mae sefydliadau gofal iechyd:

- a. *yn rhoi cynlluniau ar waith i ddarparu adnoddau ar gyfer amddiffyn y cyhoedd os bydd achosion sylweddol o glefyd heintus yn digwydd neu argyfwng iechyd arall;*
- b. *yn nodi ac yn mynd i'r afael â phroblemau difrifol ym maes iechyd y cyhoedd ac anghydraddoldebau iechyd, gyda'r Byrddau Iechyd Lleol yn arwain;*
- c. *yn gweithredu rhaglenni effeithiol i wella iechyd a lleihau anghydraddoldebau iechyd; ac yn amddiffyn eu poblogaethau rhag peryglon a nodwyd eisoes a pheryglon newydd i iechyd; ac*
- ch. *yn annog ac yn helpu unigolion i gydnabod bod ganddynt gyfrifoldeb i edrych ar ôl eu hiechyd a'u lles eu hunain.*

S31.1 Gweler yr ymateb i Safon 18.

Safon 32

Mae'r sefydliadau gofal iechyd yn cyflawni'r Safon Iechyd Gorfforaethol, sef y nod ansawdd cenedlaethol ar gyfer iechyd yn y gweithle, ac yn symud i lefel uwch ar ôl cael ailasesiad.

S32.1 Yn ôl ei hunanasesiad, daeth y BILI i'r casgliad ei fod yn **Datblygu** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S32.2 Cyflawnodd y BILI y Safon Iechyd Gorfforaethol Efydd yn 2005-2006 ac yn fuan bydd yn dechrau gweithio tuag at y nod o gyflawni'r Safon Aur erbyn mis Mawrth 2008. Mae'r gwaith yn cael ei gydlynu trwy'r Cyd-grwp Staff a rhoddir diweddariadau ynglyn â chynnydd i'r Bwrdd.

S32.3 Rydym yn cytuno ag asesiad y BILI ei fod yn **Datblygu** ar bob un o'r tair lefel ar gyfer y safon hon.

Mae crynodeb o'r lefelau aeddfedrwydd ar gyfer pob un o'r 32 safon, fel y'u haseswyd gan BILI Sir Fynwy trwy ei hunanasesiad a chan AGIC yn dilyn profi a gwerthuso, i'w weld yn Atodiad 2.

5. Y Camau Nesaf

5.1. Mae'n ofynnol i BILI Sir Fynwy gyhoeddi Cynllun Gwella Safonau Gofal Iechyd erbyn 30 Tachwedd 2007. Bydd Swyddfa Ranbarthol Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cytuno ar y cynllun hwn, a bydd yn monitro ei weithredu fel rhan o'r trefniadau rheoli perfformiad sydd wedi'u sefydlu ar gyfer GIG Cymru. Bydd y cynllun ar gael ar wefan y BILI.

5.2. Yn ystod y misoedd i ddod bydd AGIC yn gweithio gyda rhanddeiliaid i fireinio a gwella'r dull asesu ar gyfer y dyfodol ac i alinio proses hunanasesu'r Safonau Gofal Iechyd â'r cylch ariannol blynyddol.

5.3. Cyhoeddir adroddiad Cymru gyfan a bydd yn cynnwys y canfyddiadau o adroddiadau unigol mewn trosolwg o'r sefyllfa ar draws Cymru. Bydd yr adroddiad hwn yn nodi'r themâu allweddol a'r meysydd risg a amlygwyd yn ystod proses asesu'r Safonau Gofal Iechyd.

Atodiad 1

Diffiniadau o Lefelau Aeddfedrwydd

	Ymwybodol	Ymateb	Datblygu	Ymarfer	Arwain
Corfforaethol	Mae'r Bwrdd yn ymwybodol o'r materion y mae angen rhoi sylw iddynt, ond nid yw'n gallu dangos penderfyniadau/camau i fynd i'r afael â hwy.	Mae'r Bwrdd yn cydnabod y materion allweddol ac wedi nodi dewisiadau y mae angen eu blaenoriaethu, ond nid oes tystiolaeth o gyfeiriad strategol.	Mae'r Bwrdd yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r materion allweddol trwy ddatblygu cynlluniau strategol gyda thystiolaeth o arfer da ar draws y sefydliad.	Mae'r agenda strategol yn cael ei datblygu a'i monitro gan y Bwrdd gyda thystiolaeth sylweddol o welliant parhaus ar draws y sefydliad.	Mae'r Bwrdd yn arwain yr agenda strategol trwy weithredu arfer arloesol a rennir ar draws y sefydliad a'r tu hwnt iddo, gan alluogi gwireddu cynaliadwyedd hirdymor.
Gweithredol	Mae ymwybyddiaeth o'r materion y mae angen rhoi sylw iddynt, ond nid oes unrhyw ddulliau wedi'u datblygu i fynd i'r afael â hwy.	Ceir cydnabyddiaeth o'r materion allweddol y mae angen rhoi sylw iddynt ac mae ystod o ddewisiadau wedi'u nodi i fynd i'r afael â hwy.	Mae camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r materion allweddol gyda thystiolaeth o gymhwyso ymarferol ar draws y sefydliad.	Mae cynlluniau sydd wedi'u datblygu'n dda yn cael eu gweithredu ar draws y sefydliad sy'n mynd i'r afael â'r materion allweddol, a cheir tystiolaeth o werthuso a meincnodi sy'n arwain at welliant parhaus.	Mae tystiolaeth o arfer arloesol, a rennir ar draws y sefydliad a'r tu hwnt iddo. Maent yn datblygu eu dulliau ymhellach er mwyn sicrhau gwelliant cynaliadwy hirdymor.
Profiad y Defnyddiwr	Mae profiad yr unigolyn/unigolion yn wael ar y cyfan ac nid oes dulliau wedi'u datblygu o fewn y gwasanaethau i fynd i'r afael â hwy.	Nid yw profiad yr unigolyn/unigolion yn dda ar y cyfan, er bod dulliau wedi'u datblygu o fewn y gwasanaeth i fynd i'r afael â hwy.	Mae profiad yr unigolyn/unigolion yn gwella mewn sawl maes, er nad yw hyn yn gyson ar draws y sefydliad hyd yma.	Mae profiad yr unigolyn/unigolion yn dda ar y cyfan ar draws yr holl feysydd.	Mae profiad yr unigolyn/unigolion yn wych ar y cyfan, ac mae'r gwasanaeth yn gallu dangos tystiolaeth glir o arfer da, y gellir ei rannu.

Crynodeb o Lefelau Aeddfedrwydd yn ôl Safon

Allwedd

L	Arwain
P	Ymarfer
D	Datblygu
R	Ymateb
A	Ymwybodol

Safon 1

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Clinigol/Gweithredol	P	↓	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 2

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Clinigol/Gweithredol	P	↔	P
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 3

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↔	P
Canlyniadau Clinigol/Gweithredol	P	↓	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↓	R

Safon 4

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↓	R
Canlyniadau Clinigol/Gweithredol	D	↓	R
Profiad y Defnyddiwr	D	↓	R

Safon 5

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	R	↔	R
Canlyniadau Clinigol/Gweithredol	D	↓	R
Profiad y Defnyddiwr	D	↓	R

Safon 6

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Clinigol/Gweithredol	P	↓	D
Profiad y Defnyddiwr	P	↓	R

Safon 7

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Clinigol/Gweithredol	P	↓	D
Profiad y Defnyddiwr	P	↓	D

Safon 8

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Clinigol/Gweithredol	D	↓	R
Profiad y Defnyddiwr	P	↓	D

Safon 9

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↓	A
Canlyniadau Clinigol/Gweithredol	D	↓	A
Profiad y Defnyddiwr	D	↓	A

Safon 10

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Clinigol/Gweithredol	P	↓	D
Profiad y Defnyddiwr	P	↓	D

Safon 11

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Clinigol/Gweithredol	R	↔	R
Profiad y Defnyddiwr	D	↓	R

Safon 12

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Clinigol/Gweithredol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↓	R

Safon 13

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	A	↔	A
Canlyniadau Clinigol/Gweithredol	A	↔	A
Profiad y Defnyddiwr	A	↔	A

Safon 14

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Clinigol/Gweithredol	D	↓	R
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 15

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Clinigol/Gweithredol	D	↓	R
Profiad y Defnyddiwr	P	↓	R

Safon 16

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Clinigol/Gweithredol	D	↓	R
Profiad y Defnyddiwr	P	↓	D

Safon 17

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Clinigol/Gweithredol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 18

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Clinigol/Gweithredol	P	↔	P
Profiad y Defnyddiwr	P	↓	D

Safon 19

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Clinigol/Gweithredol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 20

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Clinigol/Gweithredol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	P	↓	D

Safon 21

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Clinigol/Gweithredol	P	↓	D
Profiad y Defnyddiwr	P	↔	P

Safon 22

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Clinigol/Gweithredol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	P	↓	R

Safon 23

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↓	D
Canlyniadau Clinigol/Gweithredol	P	↓	D
Profiad y Defnyddiwr	P	↓	R

Safon 24

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	L	↔	L
Canlyniadau Clinigol/Gweithredol	L	↔	L
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 25

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↓	D
Canlyniadau Clinigol/Gweithredol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 26

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↓	D
Canlyniadau Clinigol/Gweithredol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	P	↓	R

Safon 27

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↓	D
Canlyniadau Clinigol/Gweithredol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	P	↓	R

Safon 28

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Clinigol/Gweithredol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 29

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↓	D
Canlyniadau Clinigol/Gweithredol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 30

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Clinigol/Gweithredol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↓	R

Safon 31



	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	Amherthnasol		
Canlyniadau Clinigol/Gweithredol	Amherthnasol		
Profiad y Defnyddiwr	Amherthnasol		

Safon 32


	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Clinigol/Gweithredol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Atodiad 3


Crynodeb o Aeddfedrwydd yn ôl y Lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr




Sgorau Aeddfedrwydd y Lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol



Sgorau Aeddfedrwydd Lefel Profiad y Defnyddiwr



Cytuno/Anghytuno â Sgôr y BILI



Atodiad 4

Rhestr Termau Allweddol

Grwp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru Gyfan – mae'n cynghori'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar reoli a rhagnodi meddyginiaethau strategol.

cerdyn sgorio cytbwys - system reoli sy'n darparu model er mwyn i sefydliad egluro ei weledigaeth a'i strategaeth a'u rhoi ar waith. Mae'n cefnogi gwelliant parhaus ym mherfformiad y sefydliad.

Gwarcheidwad Caldicott - uwch glinigwr ym mhob sefydliad y GIG sy'n gyfrifol am weithredu agweddau ar adroddiad Caldicott, a oedd yn adolygu diogelu a defnyddio gwybodaeth am gleifion.

llwybr gofal - set ddiffiniedig o gamau triniaeth a gofal a luniwyd i fodloni anghenion penodol pob claf.

archwilio clinigol – dull a ddefnyddir gan weithwyr proffesiynol iechyd i werthuso a mesur i ba raddau y maent yn bodloni'r safonau a osodwyd ar gyfer eu gwasanaeth.

rheolaeth glinigol – fframwaith a ddefnyddir i sicrhau bod sefydliadau'r GIG yn atebol am wella ansawdd eu gwasanaethau a chynnal safonau uchel o ran gofal yn barhaus.

rhwydweithiau clinigol – grwp o wasanaethau sy'n cydweithio ar draws ffiniau cyfundrefnol er mwyn darparu gwell gofal i gleifion.

canlyniad clinigol – effaith triniaeth ar iechyd a lles unigolyn.

Cyngor Iechyd Cymuned (CIC) - sefydliadau di-elw, cymunedol sy'n ymwneud â hybu iechyd, eiriolaeth iechyd a pholisïau iechyd. Sefydlwyd Cyngorau Iechyd Cymuned ym 1992 er mwyn cryfhau cyfranogiad y gymuned wrth ddiffinio polisiau gwladol a lleol sy'n effeithio ar fynediad at ofal iechyd ac ansawdd gofal iechyd. Mae Cyngorau Iechyd Cymuned yn cynrychioli lles y cyhoedd yn y GIG ac mae hawl statudol ganddynt i fod yn rhan o ymgynghoriadau ynghylch newidiadau iechyd yn eu hardaloedd.

Swyddfa Cofnodion Troseddol (SCT) – asiantaeth weithredol a sefydlwyd er mwyn helpu sefydliadau i wneud penderfyniadau recriwtio mwy diogel trwy ddarparu mynediad ehangach at wybodaeth am gofnodion troseddol. Mae'r Swyddfa Cofnodion Troseddol yn helpu cyflogwyr yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol i nodi ymgeiswyr a allai fod yn anaddas ar gyfer rhai mathau o waith, yn enwedig gwaith sy'n cynnwys cysylltiad â phlant neu bobl eraill sy'n agored i niwed mewn cymdeithas.

diogelu data – gofyniad ar sefydliadau cyhoeddus ac eraill i weithredu'n gyfrifol wrth reoli data personol. Ymddrinnir â chyfrifoldebau o'r fath gan Ddeddf Diogelu Data 1984 a Deddf Camddefnyddio Cyfrifiaduron 1990, a luniwyd i ddiogelu data a gedwir am unigolion.

Cynllun Oes - mae'n amlinellu'r weledigaeth ar gyfer dyfodol gwasanaethau iechyd yng Nghymru ac mae ganddo strategaeth ddeng mlynedd er mwyn gwireddu hynny. Mae'r strategaeth yn cynnwys tri fframwaith strategol, gyda phob un ohonynt yn para tua thair blynedd. Mae'r rhain yn cynnwys: Fframwaith 1 (2005-2008) Ailgynllunio Gofal Iechyd; Fframwaith 2 (2008-2011) Cyflawni Safonau Uwch a; Fframwaith 3 (2011-2014) Gwasanaethau o Safon Fyd-eang.

Safonau Gofal Iechyd – fframwaith cyffredin o safonau gofal iechyd a gyhoeddwyd ym mis Mai 2005 gan Lywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn cefnogi'r GIG a sefydliadau partner wrth ddarparu gwasanaethau effeithiol, amserol ac o ansawdd ym mhob lleoliad gofal iechyd.

rheoli heintiau – set o weithdrefnau ar gyfer atal lledaenu heintiau, a fydd yn cynnwys, er enghraifft, golchi dwylo, defnyddio offer dihaint, ayyb.

Byrddau Iechyd Lleol (BILI) - sefydliadau statudol sy'n gyfrifol am weithredu strategaethau i wella iechyd y boblogaeth leol, sicrhau a darparu gwasanaethau gofal iechyd sylfaenol a chymunedol a sicrhau gwasanaethau gofal eilaidd.

Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) - sefydliadau hunanlywodraethu o fewn y GIG, sy'n darparu gwasanaethau gofal iechyd. Mae ymddiriedolaethau yn cyflogi ystod lawn o weithwyr gofal iechyd proffesiynol gan gynnwys meddygon, nyrsys, dietegwyr, ffisiotherapyddion, ayyb. Mae ymddiriedolaethau aciwt yn darparu gwasanaethau meddygol a llawfeddygol mewn ysbytai fel arfer. Mae ymddiriedolaethau cymunedol yn darparu gwasanaethau iechyd lleol, fel arfer yn y gymuned, e.e. nyrsys ardal, trinwyr traed, ayyb. Mae ymddiriedolaethau cyfun yn darparu gwasanaethau ymddiriedolaeth gymunedol ac aciwt o dan un system reoli.

Y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol (NICE) - awdurdod iechyd arbennig sy'n cynhyrchu canllawiau ar gyfer y GIG a chleifion ar feddyginiaethau, offer meddygol a gweithdrefnau clinigol.

Yr Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion (NPSA) - awdurdod iechyd arbennig a grëwyd ym mis Gorffennaf 2001 er mwyn cydlynu ymdrechion y wlad gyfan i adrodd ac, yn bwysicach, i ddysgu o gamgymeriadau a phroblemau sy'n effeithio ar ddiogelwch cleifion.

Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru (NPHS) – mae'n cyflwyno ystod lawn o wasanaethau iechyd y cyhoedd sy'n ceisio: gwella iechyd a lles pobl yng Nghymru a lleihau anghydraddoldebau iechyd; diogelu yn erbyn clefydau a bygythiadau iechyd cyfredol, newydd ac sy'n dod i'r amlwg ac; yn cyfrannu at wella gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol - canllawiau ar gyfer y gwasanaeth iechyd ar sut i reoli a thrin mathau penodol o glefydau a salwch.

Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd – strategaeth a luniwyd i sicrhau bod barn a safbwyntiau cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr a'r cyhoedd yn cael eu hystyried wrth gynllunio a darparu gwasanaethau.

Rhaglen Arweinyddiaeth Glinigol Coleg Brenhinol y Nyrsys – rhaglen sy'n caniatáu amser wedi'i neilltuo i nyrsys er mwyn iddynt arsylwi gofal a darparu gwasanaethau, a chyfweld â chleifion ynghylch darparu gofal. Fe'i lluniwyd i alluogi nyrsys i ddatblygu a gwella eu sgiliau arwain, gwella sgiliau tîm a threfnu a chanolbwyntio ar anghenion cleifion.

Datganiadau o Reolaeth Fewnol - datganiad ar drefniadau cyffredinol sefydliad y GIG ar gyfer ceisio sicrwydd bod y prif risgiau o fewn y sefydliad yn cael eu rheoli'n effeithiol.

Bwrdd yr Ymddiriedolaeth – grwp o bobl sy'n gyfrifol trwy statud am wneud penderfyniadau pwysig sy'n ymwneud â strategaethau a pholisïau ym mhob Ymddiriedolaeth y GIG. Fel arfer mae'n cynnwys cadeirydd lleyg, pum aelod lleyg, Prif Weithredwr a Chyfarwyddwyr Gweithredol yr Ymddiriedolaeth.

Cronfa Risg Cymru – cynllun hunansicrwydd ar y cyd ar gyfer pob sefydliad iechyd yng Nghymru. Mae hefyd yn cefnogi diogelwch cleifion a staff trwy annog a chefnogi perfformiad da o ran rheoli risgiau ac asesu trwy fesur yn erbyn safonau penodol.